

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2012/13

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Cynnwys

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd 4

Cyflawniadau a Gwobrau 5

Ei wneud yn Ddiogel 7

Ansawdd a Diogelwch 7

Cadw Pobl yn Ddiogel 9

Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel 9

Bod yn Barod am Achos Brys 11

Gwneud iddo Weithio 12

Ein Gweithlu 12

Gofalu am ein Staff 13

Ymgysylltu a Chyfathrebu â Staff 15

Ystadau ac Isadeiledd – Buddsori a Datblygu 16

Gwneud iddo Ddigwydd 19

Perfformiad ac Adolygu Ariannol 19

Ein Hymrwymiadau Amgylcheddol a Chymdeithasol 22

Gofal Cychwynnol ac Ardaloedd Lleol 26

Ymgysylltu ac Ymgynghori 28

Gweithio gyda'n Partneriaid 29

Datblygiad Sefydliadol 30

Ei wneud yn Well 31

Profiad Defnyddwyr y Gwasanaeth 31

Moderneiddio a Gwella Gwasanaeth 32

Egwyddorion ar Gyfer Gwella 33

Yr Iaith Gymraeg 34

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol 35

Ymchwil a Dysgu 35

Monitro a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd 37

Iechyd Cyhoeddus 37

Ei wneud yn Gadarn 40

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol 40

Datganiad Llywodraethu ac Ansawdd 40

Rheoli Risg 41

Ein Bwrdd 41

Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr 43

Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau 44

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol 49

Adroddiad yr Archwilwyr 56

Croeso gan y Cadeirydd â'r Prif Weithredwr Dros Dro

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2012/13. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un heriol i'r Bwrdd Iechyd wrth i ni geisio gwneud gwelliannau i'r gwasanaethau a'r gofal a ddarparwn, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gynaliadwy gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni.

Unwaith eto, gallwn roi gwybod am gyflawniadau ardderchog ein staff a'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cychwynnol. Mae eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'r ffaith eu bod yn benderfynol o roi gofal ardderchog yn dod â manteision mawr i boblogaeth Gogledd Cymru. Mae'r Adroddiad hwn yn amlygu enghreifftiau o arloesi a gwella o ran cyflwyno gwasanaethau o ddydd i ddydd y gallwn ni fel Bwrdd, ac yn bwysicach fyth, y staff sydd ynghlwm wrth y cyfan fod yn haeddiannol falch ohonynt.

Mae'r sefydliad yn ffodus o gael cymorth yr aelodau staff hyn. Gyda'i gilydd, mae ganddynt gyfoeth mawr o brofiad a gwybodaeth a thros y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn ceisio manteisio ar yr arbenigedd hwn wrth i ni barhau i ddatblygu ein gwasanaethau.

Yn ystod 2012/13, ymgymerodd y Bwrdd â rhaglen ymgysylltu ac ymgynghori eang o'r enw "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid". Aeth y rhaglen hon i'r afael â rhai o'r heriau rydym yn eu hwynebu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y dyfodol a bydd yn cefnogi anghenion cyfnewidiol pobl Gogledd Cymru.

Bwriad y newidiadau sy'n deillio o'r rhaglen – datblygu gwasanaethau gofal cychwynnol a gwasanaethau cymunedol, trawsnewid gofal ar gyfer pobl hŷn â phroblemau iechyd meddwl, canoli llawdriniaeth fasgwlaidd fawr a chomisiynu gofal dwys newydd-anedig o Ysbyty Arrowe Park – yw gwneud gwasanaethau'n fwy diogel, cynaliadwy a dibynadwy. Rydym yn gweithio i roi'r newidiadau hyn ar waith erbyn hyn a byddwn yn eu monitro'n agos i sicrhau bod modd sicrhau'r manteision hyn.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, gwyddom fod angen newid pellach a byddwn yn dysgu o'n profiad yn ystod y cyfnod hwn o ymgysylltu ac ymgynghori er mwyn datblygu ymhellach ein hymagwedd at gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol ar gyfer pobl Gogledd Cymru.

Er bod llawer i ni fod yn gadarnhaol yn ei gylch dros y flwyddyn ddiwethaf, gwyddom nad ydym yn gwneud pethau'n iawn i bob un sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu eu gofalwyr a'u teuluoedd. Rydym yn croesawu adborth gan bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a byddwn yn parhau i'w ddefnyddio fel ffordd o wella'r hyn rydym yn ei wneud; p'un a yw hynny ar ffurf pryderon a chwynion, storïau cleifion neu adborth arall sy'n llai ffurfiol. Fel Bwrdd, mae hyn yn cynnig cipolwg unigryw ar ble gallwn ni wella ac mae'n rhaid i ni ymateb yn effeithiol i'r cyfle hwn.


Yn ystod 2012/13, daethom yn ymwybodol o bryderon sylweddol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ymwneud â llywodraethu'r Bwrdd a'r goblygiadau posibl o ran ansawdd a diogelwch y gofal rydym yn ei ddarparu. O ganlyniad i hyn, cynhaliwyd adolygiad ar y cyd o'r pryderon hyn a chafodd adroddiad - "Adolygiad o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr" - ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2013.

Amlygodd yr adroddiad hwn wendidau o ran llywodraethu ac arwain yn y Bwrdd Iechyd a gwnaeth nifer o argymhellion sylweddol yn ymwneud â newid. Amlygodd bryderon penodol mewn perthynas â rheoli heintiau yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Mae'r Bwrdd wedi derbyn canfyddiadau'r Adroddiad hwn yn llawn. Mae rhaglen waith fanwl yn mynd rhagddi a fydd yn parhau drwy gydol 2013/14 i sicrhau bod proses arwain a llywodraethu'r Bwrdd yn effeithiol, a bod ein trefniadau i sicrhau gwasanaethau clinigol diogel a chynaliadwy'n gadarn.

I gloi, hoffem ddiolch i'n staff, ein contractwyr a'u staff ym maes gofal cychwynnol, y rhai sy'n gwirfoddoli i gefnogi ein gwasanaethau a'r sefydliadau partner hynny sy'n gweithio gyda ni. Dim ond drwy gydymdrechion pawb y gallwn ddarparu gofal ar gyfer y boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu 24 awr y dydd, bob dydd drwy gydol y flwyddyn.



Yr Athro Merfyn Jones CBE
Cadeirydd



Geoff Lang
Prif Weithredwr Dros Dro

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal cychwynnol, cymuned, iechyd meddwl a gwasanaethau mewn ysbytai llym i boblogaeth o thua 678,000 ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).


Rydym yn gyfrifol am waith tri ysbyty llym (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a thimau yn y gymuned.

Rydym hefyd yn cydlynu gwaith 115 o feddygfeydd, a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr ar draws yr ardal.

I helpu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau yn y gymuned i weithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gefnogi preswylwyr, mae gwasanaethau'r GIG y tu allan i'r ysbytai wedi cael eu trefnu'n 14 'ardal leol' fel a ganlyn:

- Ynys Môn
- Arfon, Dwyfor, Meirionnydd
- Gorllewin Conwy, Dwyrain Conwy
- Gogledd Sir Ddinbych, Canol/De Sir Ddinbych
- Gogledd Orllewin Sir y Fflint, De Sir y Fflint a Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint
- Gorllewin a Gogledd Wrecsam, Tref Wrecsam, De Wrecsam

Mae gwasanaethau clinigol ar draws yr ysbytai wedi cael eu rhannu'n Grwpiau Rhaglen Glinigol (GRhGau) dan arweiniad uwch staff clinigol sy'n atebol am ansawdd a darparu gwasanaethau.



Mae'r Penaethiaid Staff, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, yn ffurfio Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain rheolaeth weithredol y sefydliad. Maent yn atebol yn y pen draw i Brif Weithredwr y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd ei hun yn cynnwys y Cadeirydd, Aelodau Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr, ac mae'n gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad. Trwy strwythur y pwyllgorau, mae'r Bwrdd yn gweithio i sicrhau ein bod yn cadw at safonau llywodraethu da ac yn cyflawni ein targedau perfformiad.

Ym mis Mawrth 2013, cytunodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y byddant yn cynnal adolygiad ar y cyd i edrych ar drefniadau clinigol corfforaethol ac ariannol y Bwrdd Iechyd. Roedd yr adolygiad hwn yn asesu a oedd y trefniadau hyn yn addas, yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn ddigonol i sicrhau ansawdd, diogelwch a chynaladwyedd gwasanaethau i'r boblogaeth a wasanaethir gan y Bwrdd Iechyd.

Roedd yr adroddiad (linc i'r ddogfen Saesneg), a gyhoeddwyd ddiwedd Mehefin 2013, yn amlygu nifer o ddiffygion arwyddocaol yn systemau rheoli a llywodraethu'r Bwrdd. Gyda chefnogaeth allanol, wedi'i hwyluso gan Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio ar frys i fynd i'r afael â'r pryderon difrifol a godwyd.

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, ymddiswyddodd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Bwrdd.

Cyflawniadau a Gwobrau

Yn ystod y flwyddyn, cafodd ein staff a'n hadrannau gydnabyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol am eu harloesed ac ansawdd eu gwasanaethau.



Enillodd Lee Garner, Rheolwr Diogelwch y Bwrdd Iechyd, Wobr Diwrnod Cenedlaethol Diogelwch Personol am ei waith gyda Diwrnod Cenedlaethol Diogelwch Cleifion yn 2011. Cafodd y Wobr ei chyflwyno iddo yn seremoni wobrwyo flynyddol Diogelwch Cenedlaethol Personol a gafodd ei chynnal yn Llundain ar 14 Tachwedd.

Dewisodd y beirniaid Lee am ei waith yn codi proffil diogelwch cenedlaethol a Diwrnod Cenedlaethol Diogelwch Personol, nid yn unig drwy ein Bwrdd Iechyd ein hunain ond ar draws y GIG yng Nghymru.


Lee Garner yn derbyn ei Wobr gan Paul Lamplugh, tad Suzy Lamplugh a sylfaenydd Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh

Enillodd Jane Williams, Nyrs Staff gyda'r Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig ac Adsefydlu wobr 'Mentor y Flwyddyn' *Student Nursing Times* yng ngwobrau agoriadol *Student Nursing Times* a gynhaliwyd yn Llundain.

Cafodd enwau enillwyr yn neng categori'r wobr eu dewis o bob rhan o'r DU, a Jane oedd yr unig enillydd sy'n byw yng Nghymru.



O chwith i'r dde:
Adam Roxby, Golygydd *Student Nursing Times*; Jane Williams; Trish Griffin, Prif Ddarlithydd, Prifysgol Kingston Llundain a Jenni Middleton, Golygydd, *Nursing Times*.



Cyflwynwyd Gwobr Robin Huw Owen i Anna Feely, Ymarferydd Adran Llawdriniaeth (ODP) yn Ysbyty Glan Clwyd am y Myfyriwr ODP gorau yn y seremoni raddio flynyddol ym Mhrifysgol Bangor.

Anna Feely yn derbyn ei gwobr gan Arwel Jones, Uwch Ymarferydd Adran Weithredol, Ysbyty Gwynedd.

Gwobrau Cyrhaeddiad Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Caiff Gwobrau Cyrhaeddiad Staff Blynyddol eu trefnu a'u gweinyddu gan Adran y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol. Denodd Gwobrau 2012 nifer fawr o enwebiadau ar draws pob categori, a amlygodd arloesi, egni ac ymrwymiad ein staff. Yr enillwyr oedd:

- **Gwella Diogelwch Cleifion:** Elaine Roberts, Ymarferydd y Colon a'r Rhefr
- **Tystiolaeth wrth Ymarfer:** Bridget Roberts, Seicolegydd Plant
- **Cyfraniad Mwyaf Eithriadol at Wella Bywyd Cleifion:** Sarah Hookes ac Alison Shields a'r Tîm Bydwreigiaeth Graidd
- **Cyfrannu at y Gymuned Ehangach:** Irfon Williams, Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
- **Cyfraniad Gwirfoddol Eithriadol:** Cefnogwyr Cymheiriaid Bwydo ar y Fron Gogledd Cymru
- **Gwobr Haydn Hughes am Gyfraniad Eithriadol at y Gweithle** Sharon Langford, Ysgrifennydd Meddygol
- **Ffyrdd Newydd o Weithio:** Gwasanaeth Cymorth Therapiwtig ac Adsefydlu
- **Gweithio mewn Partneriaeth:** Ronnie Jones, Rheolwr Arlwyo; Sue Kirk, Prif Therapydd Iaith a Lleferydd; Jan Jenkins, Arbenigwr a Rachel Kudrycz, Arbenigwr
- **Gwobr Dr E C Benn:** Gail Barton-Davies, Rheolwr Proffesiynol yn Uned y Plant
- **Gwella Cydraddoldeb:** Grŵp Llywio Hawliau Dynol o ran Maeth a Hydradu mewn Gofal Iechyd
- **Ansawdd mewn Gofal Cychwynnol:** Dr Steve McVicar, Meddyg Teulu, Biwmares
- **Cyfraniad Eithriadol at Wella Iechyd a Lles Staff yn y Gweithle:** Christine Clark, Meddyg Ymgynghorol mewn Obstetreg a Gynaecoleg
- **Gwasanaethu Gofal Iechyd Dwyieithog:** Clare Evans, Ymwelydd Iechyd
- **Rhagoriaeth mewn Arweinyddiaeth:** Sue Wood, Rheolwr Nyrs Clinigol







Ei wneud yn Ddiogel

Mae diogelwch cleifion yn hollol greiddiol i'r hyn a wnawn. Er y bydd rhai risgiau bob amser yn gysylltiedig ag ymyrraeth glinigol a chynnal gwasanaeth mor gymhleth â'r GIG, gallwn gyfyngu ar y rhain drwy gymryd y mesurau rheoli priodol. Mae'r angen hwn am ddiogelwch yn ymestyn i bob rhan o'n gwaith: diogelwch clinigol y gofal a'r driniaeth rydym yn eu darparu, mesurau iechyd a diogelwch i amddiffyn cleifion a staff ar ein safleoedd, cadw gwybodaeth am gleifion yn ddiogel fel y gallwn ddarparu gofal effeithiol a gwneud yn siŵr ein bod yn barod i ymateb os byddwn yn wynebu achos brys mawr.

Eleni rydym wedi cyhoeddi Datganiad Ansawdd Blynyddol ar wahân hefyd sy'n cynnig rhagor o fanylion am sut mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau rydym yn eu cynllunio ac yn eu darparu. Mae modd cael golwg ar hwn ar ein gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk

Ansawdd a Diogelwch

Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy

Mae ansawdd yn ymwneud â chysondeb - gwneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau cywir, i'r safon cywir, bob tro i bob claf. Dyma un o themâu canolog yr Ymgyrch 1000 o Fywydau a Mwy cenedlaethol sydd ar waith yng Nghymru i leihau marwolaeth a niwed i gleifion.

Rydym yn aelod gweithgar o'r ymgyrch ac rydym yn cynnal dros 20 o brosiectau gwella ar y cyd - prosiectau sy'n dod â nifer o staff o wahanol ddisgyblaethau at ei gilydd i weithio gyda'i gilydd i wneud gwelliannau diogelwch ar gyfer cleifion â chyflyrau penodol ac ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys gwella bywyd cleifion â chyflyrau ar y galon, gwellhad cyflymach ar ôl llawdriniaeth, ymateb cyflym i salwch difrifol, atal syrthio a gwella gofal y geg i gleifion ar y wardiau.

Mae'r grwpiau hyn yn defnyddio methodoleg yn seiliedig ar dystiolaeth i ddatblygu 'pecynnau gofal' – cyfres o gamau penodol y dylid eu cymryd gyda phob claf i wneud yn siŵr fod pob unigolyn yn cael gofal cyson sy'n unol ag arfer gorau.

Mae'r gwaith hwn yn arwain at welliannau amlwg o ran canlyniadau fel boddhad cleifion a hyd yr amser y mae'n rhaid i gleifion aros yn yr ysbyty.

Rheoli Haint

Mae eleni wedi bod yn heriol i'r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd achos mawr o'r haint *Clostridiwm difficile* ar ddechrau 2013 at gynnal adolygiad mawr o safonau atal heintiau ar draws y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, rydym wedi bod yn rhoi hyd yn oed mwy o sylw i atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac rydym wedi mabwysiadu dull goddef dim wrth ymdrin ag arfer gwael.

Gofynnodd Prif Swyddog Meddygol Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru helpu a chefnogi'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu angenrheidiol yn cael eu cymryd er mwyn rheoli'r achosion yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru (adroddiad uniaith Saesneg) yn dod i'r casgliad bod ymateb y Bwrdd Iechyd i'r achosion yn effeithiol ond y gallai mwy fod wedi cael ei wneud, ac y dylid gwneud mwy, i ddarparu amgylchedd diogel i gleifion.

Galwodd y Bwrdd Iechyd ar arbenigwr annibynnol, yr Athro Duerden, i adolygu trefniadau rheoli haint ac i adnabod ffyrdd y gallwn wella a lleihau cyfraddau'r haint Clostridiwm difficile yn ogystal â heintiau eraill a geir mewn ysbytai.

Mae Adroddiad yr Athro Duerden (adroddiad uniaith Saesneg) ar gael ar ein gwefan ac mae'r Bwrdd eisoes wedi rhoi cynllun gwella manwl ar waith.

Mae cynllun gwaith eang wedi bod ar waith drwy gydol 2012/13, sy'n canolbwyntio ar wella hylendid dwylo, sicrhau y caiff cleifion â heintiau eu hynysu'n gyflym, monitro a lleihau heintiau allweddol gymaint â phosibl gan gynnwys bacteremia *Staphylococcus aureus*, a rhoi ymyriadau'r waith o raglen '1000 o Fywydau a Mwy' ar waith.

Rydym yn cymryd rhan yn rhaglen arolygu heintiau Cymru sy'n cynnwys arolygu heintiau orthopaedig a heintiau a ddelir ar ôl llawdriniaeth toriad Cesaraidd. Mae'r canlyniadau cyffredinol yn dangos: arolygu llawdriniaeth orthopaedig ar y glun = 0% o heintiau; arolygu llawdriniaeth orthopaedig ar y glin = 2.2%; toriad Cesaraidd = 2.7%. Caiff canlyniadau manwl am arolygu heintiau yn BIPBC eu cyhoeddi ar wefan Gofal Iechyd Cymru – Rhaglen Heintiau Cysylltiedig (gwefan uniaith Saesneg).



Hylendid dwylo yw'r dull mesur atal heintiau pwysicaf un er mwyn amddiffyn cleifion. Mae ein polisi wedi'i seilio ar arweiniad 'pum eiliad' Sefydliad Iechyd y Byd. Er mwyn monitro cydymffurfiaeth, caiff rhaglen archwilio gynhwysfawr ei chynnal ym mhob maes clinigol bob mis. Caiff canlyniadau eu gwirio ar hap gan y tîm atal a rheoli haint ar sail targedau. Mae arfer wedi gwella drwy gydol y flwyddyn, gan gynyddu o sgôr cydymffurfio cyfartalog o 90% hyd at 94% ym mis Mawrth 2013. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn yn 2013/14.

Mae dyfeisiau ymwthiol yn cynyddu'r risg o haint i gleifion; mae rhaglen '1000 o Fywydau a Mwy' yn cynnwys nifer o ymyriadau i leihau heintiau y gellid eu hosgoi sy'n gysylltiedig â dyfeisiau. Eleni mae'r Grwpiau Rhaglen Glinigol wedi bod yn datblygu ymyriadau gofal sy'n gysylltiedig â chathetrau wrinol a chathetrau gwythiennol ymylol yn unol â methodoleg 1000 o Fywydau a Mwy. Byddwn yn cynyddu cyflymder a chwmpas y gwaith hwn yn 2013/14.

Gwyddom fod glendid ein hysbytai'n bwysig i gleifion, ac rydym yn monitro glendid a chyflwr adeiladau ein hysbytai ar ffurf rhaglen arolygu bob mis. Yn gyffredinol, cyflawnwyd cyfradd gydymffurfio o 90% gyferbyn â safonau cenedlaethol. Rydym wedi cynnal cryn dipyn o waith adeiladu ac ailwampio mawr yn ystod y flwyddyn: pan fydd y prosiectau hyn wedi'u cwblhau, byddant yn arwain at amgylchedd gwell o lawer y mae'n haws ei gadw'n lân ac yn daclus.

Mae'r tîm amlddisgyblaeth atal a rheoli haint hefyd yn parhau i roi cyngor ac arweiniad arbenigol, ac i gynorthwyo staff ar bob lefel yn y sefydliad i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni gwaith sy'n lleihau'r risg o haint i'n cleifion.

Cadw Pobl yn Ddiogel

Iechyd a Diogelwch

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau statudol i amddiffyn iechyd, diogelwch a lles ein cleifion, ymwelwyr a staff o ddifrif. Yn ogystal â sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, rydym yn ymgymryd â rhaglenni asesu a monitro risg i ddynodi cyfleoedd i wella. Y prif feysydd gwaith yn ystod 2012/13 oedd:

- Rhoi cynlluniau ar waith i'n galluogi i fodloni gofynion Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013
- Ymestyn y gyfres o dudalennau arweiniol yn ymwneud â diogelwch ar ein gwefan i staff
- Datblygu cwrs hyfforddiant newydd i Reolwyr, Goruchwylwyr ac Arweinwyr Diogelwch o'r enw 'Rheoli Diogel yn BIPBC'
- Parhau â rhaglen monitro aer barhaus er mwyn canfod asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd
- Teithiau diogelwch rheolaidd gan aelodau o'r Timau Rheoli Ysbytai i fonitro cydymffurfio â diogelwch ac i edrych am amodau anniogel
- Datblygu'r systemau iechyd a diogelwch ymhellach o fewn y Grwpiau Rhaglen Glinigol a Swyddogaethau Corfforaethol sy'n cynnwys Arweinwyr Diogelwch lleol

Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar gasglu, cadw a defnyddio gwybodaeth yn ddiogel gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Pwyllgor bolisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer Rheoli Cofnodion, Mynediad at Wybodaeth, Diogelwch Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, Gwastraff Cyfrinachol a storio a chludo gwybodaeth sensitive neu wybodaeth sy'n golygu bod modd adnabod cleifion/unigolion.

Caldicott a Chyfrinachedd

Y Cyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott y Bwrdd Iechyd, ac ef sy'n sicrhau ein bod yn ymdrin â'r holl wybodaeth lle gellir adnabod cleifion yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a chanllawiau Caldicott, sy'n llywodraethu cyfrinachedd yn y GIG. Caiff y Cyfarwyddwr Meddygol ei gefnogi gan Dîm Llywodraethu Gwybodaeth sy'n helpu, yn cynghori ac yn addysgu staff am faterion sy'n ymwneud â diogelwch a chyfrinachedd data.

Mae adroddiad Caldicott ynghyd â Deddf Diogelu Data 1998 yn nodi'r prif argymhellion ac egwyddorion sy'n helpu i sicrhau bod "gwybodaeth lle gellir adnabod unigolyn" (yn cynnwys gwybodaeth am gleifion, staff a defnyddwyr gwasanaethau) yn cael ei hamddiffyn yn ddigonol.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd pecyn offer hunanasesu cenedlaethol ar-lein Caldicott a chododd ein canran cydymffurfiaeth i 82% gan enill gradd pedair seren - sy'n dangos lefel dda o sicrwydd o ran risgiau llywodraethu gwybodaeth; ond mae gwaith i'w wneud o hyd. Mae cynllun gwaith wedi'i ddatblygu i fynd i'r afael â meysydd lle na chafwyd cydymffurfiaeth lawn.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau fod y sector cyhoeddus yn fwy agored. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r holl wybodaeth nad yw'n bersonol sy'n cael ei gadw gan gorff cyhoeddus, fod ar gael yn hawdd os nad oes costau neu eithriad. Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Deddf hon, ac rydym yn ymdrechu i sicrhau fod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi.

Rydym hefyd yn cael ceisiadau am wybodaeth benodol gan unigolion a sefydliadau. Rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2013:

- Cafwyd 518 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Amgylcheddol a chafodd pob un eu cydnabod o fewn 2 ddiwrnod gwaith (o'u cymharu â 397 y flwyddyn flaenorol)
- Derbyniodd 358 (69%) o'r ceisiadau ymateb llawn o fewn 20 diwrnod gwaith, ac roedd angen cael gafael ar wybodaeth bellach ar gyfer y ceisiadau mwy cymhleth
- Cafwyd 4 chwyn, yn gofyn am Adolygiad Mewnol o'n hymateb
- Cafodd 1 Adolygiad Mewnol ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn ategu Hysbysiad Penderfyniad y Bwrdd Iechyd i atal yr wybodaeth

Mae manylion llawn y ceisiadau ar y Gofrestr Datgeliadau ar ein gwefan.

Mae gwaith yn parhau ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau fod y cyfraddau cydymffurfio ar gyfer ymateb o fewn y targed ugain diwrnod yn gwella.

Rhannu Gwybodaeth

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i rannu gwybodaeth yn briodol ac yn unol â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac mae pob aelod o'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn Hwyluswyr hyfforddedig.

Hyfforddiant

Ledled Gogledd Cymru, cyflwynwyd 55 o sesiynau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth ffurfiol ac anffurfiol i'n staff a oedd yn cynnwys diogelu data, cyfrinachedd, rheoli cofnodion a gwybodaeth a diogelwch TG.

Digwyddiadau Anffodus Difrifol

Yn ystod y flwyddyn, cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wybod gennym am ddau ddigwyddiad difrifol. Roedd hyn yn cynnwys nifer fach o lythyrau dilysu apwyntiadau dwyieithog i gleifion yn cael eu dosbarthu gyda manylion un claf ar un ochr a manylion claf arall ar yr ochr arall. Mae ymchwiliad mewnol llawn wedi'i gynnal. Cymerwyd nifer o gamau'n syth er mwyn atal hyn rhag digwydd eto ac rydym yn aros i glywed am y canlyniad gan Adran Gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Bod yn Barod am Achos Brys

Mae Bod yn Barod am Achos Brys yn golygu sicrhau ein bod yn barod am unrhyw achos brys neu ddigwyddiad mawr fyddai'n rhoi ein gwasanaethau dan bwysau cynyddol, gan olygu na fyddent yn gallu gweithredu fel arfer. Rydym yn Ymatebydd Categori 1, ac felly rhain i ni gydymffurfio â'r dyletswyddau a amlinellwyd yn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, a chydymffurfio ag arweiniad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r dyletswyddau hyn yn cynnwys:

- Rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid er mwyn gwella diogelwch sifil
- Asesu risg ein cymunedau i ddatblygu trefniadau cyfatebol
- Datblygu cynlluniau brys sy'n rheoli a lliniaru ymateb y Bwrdd Iechyd i ddigwyddiad
- Cydweithredu â'r partneriaid i sicrhau ymateb cyfunol, cydlynol
- Datblygu trefniadau rheoli parhad busnes sy'n lliniaru amharu ar wasanaethau craidd
- Rhybuddio a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd



Ymarfer dad-lygru claf yn Ysbyty Glan Clwyd

Mae gennym Gynllun Digwyddiadau Mawr a chynlluniau penodol ar gyfer ein tri ysbyty llym ym Mangor, Bodelwyddan a Wrecsam. Mae'r rhain wedi cael eu hintegreiddio â chynlluniau ein partneriaid ac yn disgrifio'r trefniadau fyddai'n cael eu defnyddio i sicrhau fod digwyddiad mawr, cymhleth, ar raddfa fawr neu un sy'n esblygu, yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae'r cynllun yn amlinellu ein cyfrifoldebau strategol, tactegol a gweithredol a'r rôl fyddem ni yn ei chymryd mewn achos brys ar raddfa fawr / digwyddiad mawr.

Mae gennym nifer o gynlluniau unigol hefyd i ymdrin â bygythiadau penodol eraill i wasanaethau, fel ffliw pandemig neu achosion eraill o glefydau heintus ac tywydd garw wedi tarfu'n sylweddol ar wasanaethau.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r gwasanaethau brys eraill, llywodraeth leol ac asiantaethau statudol eraill drwy'r Fforwm Gwydnwch Lleol i ddatblygu cynlluniau integredig ac i roi mynediad i aelodau o staff at gyrsiau, hyfforddiant ac ymarferion perthnasol yn ymwneud â chynllunio at argyfwng ac ymateb i argyfwng. Rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o hyfforddiant mewnol ac yn profi cynlluniau. Mae hyn yn helpu i feithrin sgiliau a gwybodaeth aelodau allweddol o'n staff clinigol, gweinyddol a rheoli.

Gwneud iddo Weithio

Er mwyn gwneud i bopeth weithio, mae angen i ni ddod â sgiliau ac arbenigedd cywir ein staff o amgylch pob claf neu ddefnyddiwr gwasanaeth. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan ein staff yr offer a'r systemau y mae eu hangen arnynt i wneud eu gwaith, a'r cyfleusterau a'r amgylchedd cywir i ddarparu gofal o safon uchel.

Ein Gweithlu

Y Bwrdd Iechyd yw'r cyflogwr mwyaf yng ngogledd Cymru, sy'n cyflogi tua 16,000 o bobl.

Mae galw am ein gwasanaethau'n cynyddu, o ran cyfaint a chymhlethdod. Y rheswm pennaf am hyn yw poblogaeth sy'n heneiddio â chanddynt broblemau mwy cymhleth a chyflyrau iechyd lluosog. Mae angen mwy o ofal yn y gymuned i gefnogi pobl yn eu cymunedau a'u cartrefi eu hunain ac mae angen gweithlu hyblyg ac effeithlon arnom i ateb y galw hwn a chefnogi'r newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

I gyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar addysgu, hyfforddi a datblygu ein staff presennol er mwyn eu cefnogi i gyrraedd eu llawn potensial drwy "ddysgu gydol oes" ac arferion cyflogaeth arloesol.

Mae'r dirwasgiad economaidd wedi lleihau trosiant staff; mae hyn yn debygol o barhau yn y dyfodol agos.

Mae materion cenedlaethol a lleol yn effeithio ar ein gallu i recriwtio a chadw staff meddygol. Ar lefel genedlaethol, mae prinder presennol a phrinder disgwyliedig o feysydd arbenigol fel Meddygaeth Frys a Phaediatreg, llai o gynigion o ran lleoedd hyfforddiant gan Ddeoniaeth Cymru i feddygon iau, newidiadau i gyfreithiau mewnfudo sydd wedi lleihau nifer y meddygon tramor rydym yn eu cyflogi a'r symud tuag at ofal sydd wedi'i arwain a'i roi gan feddygon ymgynghorol fwyfwy.

Yn lleol rydym yn gweld bod poblogaeth meddygon teulu yng ngogledd Cymru yn heneiddio a bod heriau'n ymwneud â chynnig gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol fawr gyda phoblogaeth sydd wedi'u gwasgaru'n gymharol eang.

Nodwyd hefyd ei bod yn anodd recriwtio i rai swyddi nad ydynt yn rhai meddygol ym maes therapi iaith a lleferydd a therapi galwedigaethol, ac mae hynny'n awgrymu meysydd lle mae angen i ni edrych ar gymysgedd arall o sgiliau staff a ffyrdd arloesol o gyflwyno ein gwasanaethau'n wahanol er mwyn darparu gofal priodol ar gyfer ein cleifion.

Felly mae defnyddio gweithlu'r sefydliad yn effeithiol wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd er mwyn iddo fodloni heriau'n ymwneud â galw cynyddol, disgwyliadau uwch, patrymau gwaith sy'n newid ac adnoddau ariannol cyfyngedig.

Mae'n rhaid hefyd sicrhau bod pob un o'n gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n hybu cydraddoldeb, yn amddiffyn hawliau dynol ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethu.

Ceir darlun o gyfansoddiad cyffredinol ein gweithlu yn y tabl isod, sy'n dangos sut mae niferoedd staff wedi newid yn ystod y flwyddyn.

Staff mewn swyddi fesul Grŵp Staff	Cyfrif Penodiadau ar 1 Ebrill 2012	Cyfrif Penodiadau ar 31 Mawrth 2013
Gwyddonol a Thechnegol Proff Ychw	752	717
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	3055	3222
Gweinyddol a Chlercyddol	3009	2813
Gweithwyr Proff Cys ag Iechyd	1013	980
Ystadau ac Atodol	1622	1540
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	285	234
Meddygol a Deintyddol	1253	1265
Nyrsio a Bydwreigiaeth Gofrestredig	5685	5760
Myfyrwyr	12	8
Cyfanswm	**16686**	**16539**

*Cyfrif Penodiadau yw nifer y swyddi a ddelir gan staff a gyflogir am fod gan rai aelodau o staff fwy nag un swydd yn y Bwrdd Iechyd.

** Mae ffigurau Ebill 2012 yn cynnwys staff Cydwasanaethau a gafodd eu trosglwyddo i Gorff Gofal Iechyd arall ar 1 Mehefin 2012.

Gofalu am ein Staff

Ym mis Tachwedd, yn dilyn asesiad deuddydd a gynhaliwyd gan bedwar o Aseswr y Safon Iechyd Gorfforaethol, roedd y Bwrdd Iechyd yn falch iawn o ennill lefel Aur gwobr genedlaethol y Safon Iechyd Gorfforaethol. Dywedodd yr aseswyr eu bod wedi cael 'profiad hynod bleserus' a 'deuddydd gwych' pan ymwelsant â nifer o safleoedd i siarad ag aelodau o staff am eu profiadau.



Aelodau'r Grŵp Iechyd a Lles yn derbyn Gwobr Aur y Safon Iechyd Genedlaethol gan Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol

Mae meddu ar weithlu iach yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn cefnogi ein staff a'n cleifion. Yn ystod y flwyddyn Olympaidd, fe wnaethom barhau i ymdrechu i hybu iechyd a lles. Cynhaliwyd nifer o fentrau er mwyn helpu i hybu lles, yn benodol canolbwyntio ar staff a thimau'n gweithio gyda'i gilydd i gymryd cyfrifoldeb a chefnogi ei gilydd o ran hybu eu hiechyd eu hunain a dod yn fwy heini ac iach ym maes iechyd.

Mae amddiffyn staff yn erbyn clefydau trosglwyddadwy'n allweddol er mwyn atal heintiau rhag lledaenu. Yn ystod y gaeaf, fe wnaethom barhau i roi brechiad y ffliw bob blwyddyn i staff a manteisiwyd ar hyn gan 35.4% ohonynt. Ym mis Mawrth, yn dilyn yr achos o'r frech goch yn ne Cymru, fe wnaethom gychwyn ymgyrch i gynyddu lefelau'r staff a oedd yn achub ar y cyfle i gael brechiad MMR.



Er mwyn cydnabod gweithgareddau ein staff, fe wnaethom gyflwyno gwobr newydd am y 'cyfraniad mwyaf eithriadol at wella iechyd a lles staff yn y gweithle' fel rhan o'n seremoni gwobrau cyrhaeddiad blynyddol. Enillwyd y wobr gan Dr Christine Clark, Meddyg Ymgynghorol mewn Obstetreg a Gynaecoleg. Cychwynnodd Chris glwb rhedeg bach ac aeth yn ei flaen i drefnu "Milltir Ysbyty Gwynedd" fel rhan o ddigwyddiad *Sports Relief*. Mae Rhedwyr Betsi yn cynnwys grŵp o bobl o oedrannau a galluoedd cymysg ac mae Chris wedi dyfeisio cynllunio rhedeg i fodloni eu hanghenion unigol ac mae wedi annog ac ysbrydoli'r Rhedwyr ar y ffordd at lwyddiant aruthrol.

Christine Clark, enillydd gwobr y 'cyfraniad mwyaf eithriadol at wella iechyd a lles staff yn y gweithle

Pencampwyr Iechyd

Roedd hyrwyddo iechyd yn thema bwysig yn ystod y flwyddyn a chofrestrodd 274 o staff gofrestru ar fenter chwe mis o hyd i edrych ar newidiadau ymddygiad o ran: bwyta'n iach, gweithio tuag at gael pwysau corfforol delfrydol, rhoi'r gorau i ysmygu, ymarfer corff yn rheolaidd ac yfed yn ddiogel. Ym mis Hydref, ymwelodd Tom James, enillydd y Fedal Olympaidd Aur â staff i gefnogi her Pencampwyr Iechyd.



Ymwelodd Tom James, enillydd y fedal Aur Olympaidd â staff i gefnogi her Pencampwyr Iechyd

Cyflwynwyd gweithdrefn lles meddyliol a rheoli straen er mwyn helpu staff i ymdopi â phwysau. Adolygwyd gwasanaethau cwnsela hefyd er mwyn gwella darpariaeth a chynnig hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth o straen ychwanegol i staff.

Mae ymestyn ein gwasanaeth at Ddeintyddfeydd Cyffredinol ledled Gogledd Cymru yn golygu bod gweithwyr gofal iechyd eraill a gyflogir yn y rhanbarth wedi cael mynediad erbyn hyn at ddarpariaeth Iechyd Galwedigaethol.

Mae absenoldeb staff yn parhau i fod yn her. Ers Ebrill 2012, mae holl adrannau'r Bwrdd Iechyd wedi gallu defnyddio'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth Cyfrinachol (CARE) i staff o ddiwrnod cyntaf eu habsenoldeb salwch. Dros gyfnod o flwyddyn, cafwyd 11,776 o gyfeiriadau er mwyn helpu staff i roi cymorth a chyngor ar y cychwyn. Mae'r adborth gan staff yn dangos bod y gwasanaeth wedi cael croeso gwresog ac mae llawer o gymorth a chyngor wedi'u rhoi er mwyn helpu staff. Teimlai 93% o staff fod gan yr ymgynghorydd cymorth ddiddordeb gwirioneddol ynddynt a theimlai 84% na ellid gwella Gwasanaeth CARE mewn unrhyw ffordd. Mae staff wedi sôn am y gwasanaeth gan ddweud pethau fel '*gwasanaeth defnyddiol iawn, roedd yn fuddiol iawn i'm gwellhad - diolch yn fawr' ac 'ar y cyfan roedd y gwasanaeth yn ddefnyddiol ac roedd wedi gwneud i mi sylweddoli 'mod i'n bwysig yn nhyb y sefydliad'.*

Er gwaethaf mesurau o'r fath i gefnogi staff yn y gwaith ac i wella presenoldeb, yn anffodus, gwelwyd cynnydd yn y gyfradd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn. Mae camau'n cael eu cymryd i ddelio ag absenoldeb salwch. Mae'r camau hyn yn cynnwys gwneud gwell defnydd o'r Grŵp Iechyd a Lles er mwyn adnabod a datrys materion salwch hir dymor; cynnal sesiynau hyfforddi salwch ac absenoldeb; monitro archwiliadau a sesiynau hyfforddi i asesu a ydy hyn wedi lleihau lefelau absenoldeb; a rhoi cyfarwyddyd i Grwpiau Rhaglen Glinigol ac adrannau i gymryd 3 cham i leihau lefelau absenoldeb gan adrodd yn ôl i Gyfarwyddwr y Gweithlu ar ba mor effeithiol y mae'r mesurau wedi bod.

Y targed absenoldeb salwch y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod i'r Bwrdd Iechyd yw 4.55% a'r gyfradd absenoldeb ar gyfer 2012/13 oedd 5.15%.

Ni chymerodd 38% o staff amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch.

Ceir crynodeb o absenoldeb salwch ar gyfer 2012/13 isod. Mae Nifer y Staff a Chyfwerth â Llawn Amser yn y tabl uchod yn gyfartaledd dros gyfnod o 12 mis ac felly ni ellir ei gymharu â data arall am staff yn yr adroddiad hwn

	2012/13	2011/12
Diwrnodau a gollwyd (yn y tymor hir)	162,978	148309
Diwrnodau a gollwyd (yn y tymor byr)	95,160	90819
Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd	258,139	239128
Cyfanswm nifer y staff a gyflogwyd	13,859	13961
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd	11.67	10.74
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn y cyfnod (Nifer)	16,083	16,157
Cyfanswm staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (Nifer)	6,173	6664
Canran staff heb absenoldeb salwch	38.38%	41.25%

Sylwer:

- Mae cyfran o staff y Bwrdd Iechyd yn gweithio oriau rhan-amser ac mae rhai aelodau o staff yn gweithio nifer llai o siafftiau ymestynedig bob wythnos. Felly caiff system oriau blynyddol ei defnyddio i gyfrifo cyfraddau absenoldeb a'r ffigyrau'n ymwneud â diwrnodau gwaith coll cyfartalog a nodwyd uchod
- Mae cyfanswm nifer y staff a gyflogir yn codi a gostwng yn ystod y flwyddyn. Mae ffigur 'cyfanswm blynyddoedd staff' yn dangos cyfanswm amser staff ar gontract a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn, wedi'i fynegi fel nifer cyfwerth o weithwyr llawn amser
- Caiff hyd llawn cyfnodau salwch ei gofnodi – gallai hyn gynnwys diwrnodau lle nad yw staff ar y rhestr waith ac felly, nid yw'r ffigurau 'Diwrnodau a gollwyd' yn cyfateb yn uniongyrchol i'r rhai ar gyfer diwrnodau gwaith cyfartalog a gollwyd

Ymgysylltu a Chyfathrebu â Staff

Rydym yn ymgysylltu'n agos â staff ac mae trefniadau partneriaeth gref gyda'n hundebau llafur yn ein helpu i gynllunio a darparu'n gwasanaethau'n effeithiol. Mae ein Fforwm Partneriaeth Leol (FfPL) yn dod ag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr undebau llafur partner ynghyd mewn cyfarfodydd bob yn ail fis. Yma, maent yn gweithio mewn partneriaeth i drafod a datrys materion sy'n ymwneud â staff, eu lles a'u hamodau gwaith, ac yn derbyn diweddariadau'n ymwneud â chyllid, perfformiad, cynllunio a materion yn ymwneud â datblygu'r gweithlu a'r sefydliad.

Yn ystod 2012/13, mae'r FfPL wedi parhau i gyfrannu at faterion yn ymwneud ag adolygiadau gwasanaeth y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys adroddiad 'Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'. Mae'r fforwm wedi cael diweddariadau rheolaidd hefyd ar gynnydd yn ymwneud â newid yn y sefydliad a phrosesau ailstrwythuro yn y Bwrdd Iechyd ac mae wedi cyfrannu at faterion cysylltiedig gan gynnwys gwerthuso swyddi a newidiadau i delerau ac amodau gwasanaeth yr 'Agenda ar gyfer Newid'. Mae diweddariadau a thrafodaethau rheolaidd wedi'u cynnal hefyd yn ymwneud â gweithgareddau ymgysylltu â staff yn y Bwrdd Iechyd.

Cefnogir ymgysylltu â staff meddygol gan waith partneriaeth drwy'r Pwyllgor Trafod Lleol. Mae partneriaid undebau llafur yn aelodau o Fyrddau Grwpiau Rhaglen Glinigol ac yn mynychu sawl Pwyllgor y Bwrdd.

Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o ffyrdd o gyfathrebu â'n staff a chael adborth ganddynt. Mae'r fewnrwyd yn cynnwys Hysbysfwrdd o newyddion a gwybodaeth weithredol a ddiweddarir yn rheolaidd, a bwrdd bwletin lle gall aelodau staff roi gwybodaeth y gallai fod ar gydweithwyr angen ei wybod. Mae eitemau o'r ddwy ffynhonnell yn sail i fwletin wythnosol a gylchredir i'r holl staff.

Mae fforwm trafod ar y fewnrwyd yn cynnig cyfle i drin a thrafod materion sydd o ddiddordeb ac sy'n peri pryder i staff. Mae '*rumour hotline*' hefyd yn rhoi cyfle i gydweithwyr godi materion o bryder ac i dderbyn ymateb cadarn i unrhyw gwestiynau a allai fod gan aelodau o staff.

Ystadau ac Isadeiledd – Buddsoddi a Detblygiadau

Rydym yn darparu ein gwasanaethau drwy rwydwaith o glinigau, canolfannau timau, ysbytai cymuned, ysbytai llym mawr a swyddfeydd ar hyd a lled Gogledd Cymru. Bu buddsoddiad arwyddocaol yn ein hystâd yn ystod 2012/13 yn ogystal â chynllunio ar ddatblygiad pellach a chynlluniau gwella a fydd yn symud i'r cyfnod adeiladu dros y flwyddyn nesaf.

Gofal Cychwynnol

Mae nifer o gynlluniau Gofal Cychwynnol wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, a chwblhawyd y datblygiad newydd yn Llanrwst ym mis Gorffennaf 2012. Disgwylir i waith ar gynllun Y Felinheli gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2013. Mae cynlluniau eraill sydd wedi'u cymeradwyo'n cynnwys datblygiadau a fydd yn digwydd ym Menllech, Harlech, Parc Caia (Wrecsam), Yr Hob, Bwcle a'r Waun.

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â meddygfeydd a gwasanaethau cymunedol lleol a chyflwynwyd yr achos busnes ar gyfer Yr Hob yn ystod 2012/13 ac mae achosion busnes pellach yn cael eu datblygu ar gyfer cyfleusterau ym Morras (Wrecsam) a Bae Colwyn.

Mae Cynlluniau Grantiau Gwella ar gyfer 2012/13 yn cynnwys gwaith cymeradwyo i'w wneud yng Nghanolfan Feddygol Plas-y-bryn yn Wrecsam i wella diogelwch ar y safle.

Prosiect Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd

Ers i'r prosiect hwn gwerth £80 miliwn ddechrau yn 2008, rydym eisoes wedi gweld gwelliannau mawr i gyfleusterau'r ysbyty, sydd wedi gwella'r driniaeth a'r gofal a roddir i gleifion. Gwireddwyd y garreg filltir bwysig fawr ym mis Mai 2012 pan agorwyd y brif Adran Theatr Lawdriniaeth, yn brydlon ac yn unol â'r gyllideb.

Dywedodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod angen cynllun ffurfiol arnom i gael gwared ar asbestos ar safle Glan Clwyd yn unol â therfyn amser cytûn.

Sicrhawyd cydymffurfiaeth o ran pedwar hysbysiad gwella a gyhoeddwyd yn flaenorol:

Rhif HSE 30413520 Marwdy	Caewyd ar 28 Chwefror 2013
Rhif HSE 304013537 Arlwyo 7A	Caewyd ar 30 Tachwedd 2012
Rhif HSE 304013591 Theatr 7 a Theatr 8	Caewyd 31 Gorffennaf 2012
Rhif HSE 304013500 Canol Canolfan y Llawr Gwaelod	Gwaith ar y gweill, Hysbysiad yn dod i ben 30 Tachwedd 2013

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cadarnhau y caiff rhagor o Hysbysiadau Gwella eu cyhoeddi gyferbyn â phob cam (fel y manylir arnynt yn y rhaglen gymeradwy ar gyfer gwaredu asbestos) wrth i'r prosiect barhau i symud yn ei flaen.



Gwaredu Asbestos

Mae rhagor o waith gwaredu asbestos wedi'i gwblhau ar yr hen farwdy; rhan o'r ystafell fwyta a choridor yr ystafell fwyta; canol canolfan y llawr gwaelod; theatr 7 a theatr 8 ar y llawr gwaelod; ac adfer pridd o amgylch y chwarter achosion brys newydd.

Patholeg

Caiff yr Adran Batholeg ei chwblhau ym mis Awst 2013 a chaiff ei chomisiynu yn ystod mis Medi 2013 a bydd yn weithredol bryd hynny hefyd.

Y Prif Foeler / System Gwresogi

Mae gwaith wedi dechrau ar gynllun graddedig i waredu'r prif foeleri gwresogi a generaduron stêm a gosod rhai newydd yn eu lle sy'n cynnwys gosod cyflenwad prif bibell nwy newydd. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Medi 2013.

Nwyon Meddygol

Diffoddwyd nwyon meddygol dros gyfnod o ddeuddydd er mwyn caniatáu gosod falfiau nwyon meddygol ar bob llawr o'r ysbyty.

Labordy Cathetreiddio

Ym mis Ionawr 2013, cafodd ein hachos busnes am £2.95 miliwn ei gymeradwyo i ddarparu gwasanaeth cardiaidd cynhwysfawr lleol ar gyfer holl gleifion gogledd Cymru, yn ategu cynlluniau dychweliad cardiaidd y Bwrdd Iechyd. Mae gwaith cynllunio'n parhau a'r gobaith yw y bydd gwaith adeiladu'n dechrau erbyn Medi 2013 a mis Mawrth 2013 fel dyddiad cwblhau disgwyliedig.

Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymuned Gogledd Sir Ddinbych

Ym mis Mai 2013, cyflwynwyd Achos Amlinellol Strategol gan Wasanaethau Gofal Iechyd Cymuned Gogledd Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru am fuddsoddiad cyfalaf o £22.2 miliwn. Mae'r Prosiect yn cynnig y cyfle i ni ddatblygu cyfleuster ysbyty cymunedol integredig (gyda gwelyau GIG i gleifion) sy'n dod â'r ystod lawn o wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector at ei gilydd dros oriau hwy, 7 diwrnod yr wythnos.

Dilynodd datblygu Achos Busnes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol ar adroddiad *Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid* ar ôl i'r Bwrdd Iechyd gymeradwyo argymhellion yn ymwneud â'r ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu cyflwyno yng Ngogledd Cymru.

Ysbyty Bryn y Neuadd

Yn ystod y flwyddyn, roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y cynlluniau ar gyfer yr Uned Asesu a Thrin arfaethedig yn Ysbyty Bryn y Neuadd. Hwn fydd y trydydd datblygiad mawr ar y safle, ar ôl uwchraddio ac adnewyddu hen seilwaith a Datblygiad Tan y Coed, a gynlluniwyd ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd parhaus sydd angen amgylchedd cartrefol i'w paratoi ar gyfer lleoliadau cymunedol.


Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd

Cyflwynwyd Achos Busnes Amlinellol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gwerth £8.5 miliwn yn yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd i Lywodraeth Cymru yn haf 2012. Bydd y Prosiect yn ein galluogi i:

- Foderneiddio ac ail-gyflunio gwasanaethau gofal brys
- Sicrhau ein bod â'r gallu sydd ei angen arnom i gwrdd â thargedau perfformiad cenedlaethol
- Cyflawni egwyddorion ac argymhellion gwasanaeth allweddol Strategaeth Gwasanaeth Clinigol Gogledd Cymru

Prosiect Ysbyty Llandudno

Cyflwynwyd Strategaeth Gwasanaethau ac Ystadau ar gyfer datblygu Ysbyty Llandudno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2010. Mae cynllunio at hyn wedi parhau ac mae achos dros fuddsoddiad cyfalaf gwerth £2 miliwn i ddatblygu Uned Mân Anafiadau newydd wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.



Gwneud iddo Ddigwydd

Mae Gwneud iddo Ddigwydd yn ymwneud â chanlyniadau: ein perfformiad a'r hyn rydym yn ei gyflawni mewn gwirionedd. Mesurir hyn ar draws sawl maes, gan gynnwys nifer y cleifion rydym yn eu trin, amserau aros, targedau cyllid a'n perfformiad amgylcheddol. Ond nid yw hyn yn ymwneud ag edrych yn ôl ar yr hyn rydym wedi'i wneud yn unig; mae'n ymwneud hefyd ag edrych ymlaen at sut gellir darparu mwy i'r dyfodol, drwy ddatblygu ac addasu ein gwasanaethau a thrwy weithio'n agosach gyda'n partneriaid.

Perfformiad ac Adolygu Ariannol

Amseroedd Aros

Rydym yn deall bod lleihau amseroedd aros yn bwysig i gleifion, o ran eu hiechyd corfforol a'u profiad o ansawdd ein gwasanaethau.

Rydym wedi gweithio gyda'n cleifion, meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill i ail-gynllunio taith cleifion, o'r adeg pan fyddant yn gweld eu meddyg teulu am y tro cyntaf i'r adeg y bydd eu triniaeth yn dechrau yn yr ysbyty neu gyda'n gwasanaethau cymunedol. Mae hyn wedi symleiddio'r broses gyfeirio, gan sicrhau y cytunir ar y cwrs triniaeth cywir a bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y gwasanaeth neu'r arbenigwr mwyaf priodol yn gyflymach.

Mae'r broses hon wedi'i hategu gan fuddsoddi ychwanegol mewn meysydd allweddol er mwyn ein helpu i leihau amseroedd yn gyflymach, gan gynnwys blwyddyn gyntaf lawn gweithrediad y theatrau newydd eu datblygu yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae datblygiadau clinigol hefyd yn golygu ein bod yn gallu cynyddu'r nifer o gleifion y gellir eu trin yn ddiogel fel achosion dydd, gyda chleifion yn cael eu derbyn, cael eu triniaeth ac yn dychwelyd adref ar yr un diwrnod.

Mae ein cleifion mewnol yn cael aros yn yr ysbyty am gyfnodau byrrach, gyda'r mwyafrif bellach yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu triniaeth, ac mae gwell ôl-ofal a meddyginiaethau newydd yn golygu bod pobl yn aml yn mynd adref yn gynt.


Yn y GIG yng Nghymru, mae Cyfeirio at Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd claf yn aros ar ôl iddo gael ei gyfeirio gan ei feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall hyd nes y bydd yn dechrau ar ei driniaeth weithgar yn yr ysbyty ac mae'n cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n aros am apwyntiadau i gleifion allanol, profion diagnostig, gwasanaethau therapi a derbyn cleifion mewnol neu achosion o ddydd i ddydd. Y ddau darged i Gymru yw:

- I 95% o gleifion gael eu trin o fewn 26 wythnos
- Na ddylai unrhyw gleifion aros yn fwy na 36 wythnos

Rydym yn benderfynol o wella perfformiad a lleihau amseroedd aros i gleifion. Ein perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn oedd bod: 92.15% o gleifion yn aros am lai na 26 wythnos a 958 o gleifion yn aros yn hwy na 36 wythnos.

Mae hyn yn siomedig a digwyddodd gan na allwn gomisiynu llawdriniaeth ddethol arfaethedig ychwanegol yn chwarter olaf y flwyddyn, ynghyd â phwysau o ran lle am welyau yn arwain at ganslo rhai llawdriniaethau o ganlyniad i'r galw am ofal brys.

Mae gennym gynlluniau manwl i wella amseroedd aros i gleifion. Yn eu plith mae gwella cynhyrchiant ein theatrau yn ddiogel; ail gynllunio llwybrau cleifion fel bod rhai cleifion yn mynd yn syth am brofion diagnostig yn hytrach nag aros am apwyntiad claf allanol i ddechrau; a sesiynau ychwanegol gan feddygon ymgynghorol fel bod gennym fwy o allu i drin cleifion. Mae'r cynlluniau'n cynnwys y gofynion ar gyfer staff cefnogol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i'n cleifion.




Amseroedd aros i gleifion â chanser

Dylai cleifion y rhagdybir bod arnynt ganser ddechrau ar eu triniaeth o fewn 62 diwrnod o gael eu cyfeirio. Dylai cleifion sy'n cael eu cyfeirio ac na thybiwyd bod arnynt ganser yn y lle cyntaf, ond sy'n cael diagnosis bod arnynt ganser ar ôl profion ac archwiliadau, ddechrau ar eu triniaeth o fewn 31 diwrnod o gael y diagnosis.

Fel y mae'r siart a ganlyn yn ei ddangos, roeddem yn agos at y safon 31 diwrnod drwy gydol y flwyddyn. Dirywiodd perfformiad ar y safon 62 diwrnod dros naw mis cyntaf y flwyddyn. Ar ôl hyn, bu gwelliant amlwg ond ni pharhaodd hyn tan ddiwedd y flwyddyn.

Y prif reswm dros y gostyngiad ym mherfformiad canser yw'r diffyg capasiti yn ein hysbytai. Rydym wedi cymryd nifer o gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r diffyg hyn, megis rhoi blaenoriaeth i gleifion sy'n dioddef o ganser o ran llawdriniaethau, ac ymestyn oriau gwaith yr adran radiotherapi. Mae yna hefyd gyfleoedd i wella amseroedd aros diagnosteg. Rydym yn gweithio gyda'r holl adrannau i sicrhau bod unrhyw gyfeiriadau hwyr yn cael eu rheoli yn sydyn o fewn systemau'r ysbyty. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i adrannau weithio gyda'i gilydd i wella problemau llwybr y claf. Byddwn yn gweithio'n benodol i wella profiad cleifion sydd â chanser y coluddyn a chanser wrolegol.



Yr Adran Achosion Brys

Ni ddylai cleifion aros yn hwy na phedair awr nes cael eu trin, eu trosglwyddo neu eu derbyn i'r ysbyty. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 85% o gleifion a aeth i Adrannau Achosion Brys eu gweld o fewn pedair awr, o gymharu â lefel gyfartalog Cymru o 86% a ffigwr targed o 95%.

Gweithgaredd

Parhaodd nifer y cleifion mewnol brys a welwyd mewn ysbytai ar draws gogledd Cymru i gynyddu. Cafwyd cyfanswm o 1.26 miliwn o ymweliadau gan gleifion a dangosir y rhain yn fanylach yn y tabl isod. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys cysylltiadau cleifion mewn gofal cychwynnol (meddygfeydd, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd lleol ac optegwyr) sy'n cyfrif am dros 90% o weithgareddau'r GIG.

	2011/2012	**2012/2013**
Derbyniadau dewisol: cleifion mewnol ac achosion dydd	49,597	**46,522**
Derbyniadau Brys: cleifion mewnol	83,257	**84,045**
Cleifion Allanol Newydd (gan gynnwys Adran Achosion Brys a Mân Anafiadau)	411,846	**408,792**
Adran Achosion Brys: Mynychwyr Newydd	217,421	**210,737**
Cleifion Allanol Dilynol (gan gynnwys Adran Achosion Brys a Mân Anafiadau)	443,750	**446,164**
Mynychwyr dydd rheolaidd	40,837	**42,951**
Mân weithdrefnau cleifion allanol	2,221	**2,178**
Endosgopi	16,957	**17,475**

Adolygiad Ariannol

Fe'n cyllidir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn derbyn dyraniad blynyddol ar gyfer gwariant refeniw (ein costau rhedeg) a chyfalaf (buddsoddiad mewn adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar). £1.26 biliwn oedd y dyraniad refeniw ar gyfer 2012/13 a £31.4 miliwn oedd y dyraniad cyfalaf.

Mae gennym ddyletswydd statudol i weithredu o fewn y dyraniadau hyn a sicrhau balans ariannol bob blwyddyn ariannol. Rydym hefyd yn derbyn incwm gweithredu arall o ran gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys darparu gwasanaethau i gyrff GIG eraill, awdurdodau lleol ac addysg ac ymchwil.

Bu 2012/13 yn flwyddyn heriol dros ben oherwydd pwysau ehangach yr economi a chyllid cyhoeddus yn gyffredinol. Rydym ni, fel gweddill y GIG yng Nghymru, yn wynebu heriau yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i ateb y galw o ddarparu gofal iechyd diogel ac effeithiol o fewn cyfyngiadau ariannol. Mae darparu gwasanaethau diogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd.

Rydym yn ddiolchgar i'n staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid am eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb a'u cefnogaeth wrth reoli ein hadnoddau o fewn cyfyngiadau statudol.

Ar y cyfan, bydd y dyraniad ariannol ar gyfer 2013/14 yn sefydlog o'i gymharu â 2012/13. Gydag effaith gynyddol y camau cynilo yn sgil y diffyg ariannol sy'n cael ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn nesaf, mae'r Bwrdd Iechyd yn benderfynol o reoli ei wasanaethau'n ddiogel ac effeithiol o fewn y cyfyngiadau ariannol. Bydd hyn yn sicrhau arbedion sylweddol yn rheolaidd i ofalu na fydd sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd yn y fantol.

Disgwylir i wariant fod yn uwch oherwydd pwysau gwahanol, oherwydd y galw cynyddol am ein gwasanaethau'n bennaf, gan gynnwys codiadau cyflog lle'n briodol, ac effaith arweiniad gan Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ac effaith y galwadau cynyddol ar ein gwasanaethau. Felly ein targed arbedion ar gyfer y flwyddyn yw £78.05 miliwn.

Mae'r meysydd allweddol rydym yn edrych arnynt yn cynnwys ailgynllunio'r gweithlu ac arloesi yn y gweithlu wrth i ni ddatblygu a moderneiddio gwasanaethau a dychweliad gwaith yn ôl i ogledd Cymru rydym ar hyn o bryd yn talu darparwyr allanol amdano.

Rydym hefyd yn canolbwyntio ar gynhyrchiant ac effeithlonrwydd, gan gynnwys hyd arhosiad yn yr ysbyty, cyfraddau llenwi gwelyau, gwneud y deunydd gorau posibl o amser mewn theatrau llawdriniaeth a chynyddu cyfradd y cleifion y gallwn eu trin fel achosion dydd.

Targedau Perfformiad Ariannol

Rydym wedi cyrraedd pob un o'r targedau perfformiad ariannol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Crynhoir ein perfformiad gwirioneddol isod:

Cyflawni balans ariannol gweithredol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw
Targed: cadw o fewn y terfyn adnoddau refeniw o £1.26 biliwn a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
Cyflawnwyd hyn gyda thanwariant bach o £5,000.

Cyflawni balans ariannol gweithredol yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf
Targed: sicrhau nad yw'r rhaglen gyfalaf yn mynd dros y terfyn adnodd cyfalaf o £31.4 miliwn.
Cyflawnwyd hyn gyda thanwariant bach o £20,000.

Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus
Targed: Talu 95% o anfonebau heb fod yn rhai'r GIG (niferoedd) o fewn 30 diwrnod.
Cyflawnwyd hyn, drwy dalu 95.7% o anfonebau o fewn 30 diwrnod.

Rheoli Arian
Targed: Dal balans arian diwedd blwyddyn o rhwng dim a £4.1miliwn.
Cyflawnwyd hyn gyda balans arian diwedd blwyddyn o £417,000.

Ein Hymrwymiadau Amgylcheddol a Chymdeithasol

Cymru o Blaid Affrica

Rydym yn gyfrannwr brwdfrydig at raglen Cymru o Blaid Affrica, yn adeiladu ar gysylltiadau a sefydlwyd rhwng Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Hossana yn Ethiopia.

Mae'r rhaglen Cymru o Blaid Affrica yn rhan o ymroddiad Llywodraeth Cymru i gefnogi Nodau Datblygu'r Mileniwm, gan roi cyfle i staff y GIG i rannu eu harbenigedd ac amser i wella iechyd yn Affrica.

Ein Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yw'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer y rhaglen hon a gydnabyddir fel esiampl o arfer gorau. Mae'n galluogi'n staff i ymweld ag Affrica i helpu gyda hyfforddiant ac addysg, atgyweirio cyfarpar a phrosiectau isadeiledd. Ar yr un pryd, byddwn ni yn dysgu o ddyfeisgarwch ac ymagwedd ein cyfatebwyr Affricanaidd, yn darparu gofal iechyd heb gymorth yr holl gyfleusterau rydym yn eu cymryd yn ganiataol yma yn y DU.

Mae pob un o'n cysylltiadau wedi cael blwyddyn brysur a chynhyurchiol ac mae'r adroddiadau o'n gwaith wedi'u rhannu isod:

Cyswllt rhwng Ysbyty Gwynedd / Ysbyty Ardal Quthing (Lesotho)

Cafodd tri aelod o staff y Bwrdd Iechyd groeso gwresog yn Ysbyty Ardal Quthing ym mis Mawrth 2012 i asesu anghenion gwasanaethau'r ysbyty: Bydwraig, Nyrs Arbenigol HIV ac Arbenigwr TG wedi'u hariannu gan Gronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd. Cafodd y wybodaeth a gafwyd ei defnyddio pan wnaethom ymuno â thri chyswllt arall i wneud cais i Gronfa Partneriaethau Aml Wlad THET/DFID.

Roedd cymorth gan Dolan, yn benodol ar ffurf ymweliadau Dr Tony Jewell, Dr Carl Clowes a Dr Paul Myres yn hollbwysig o ran cryfhau'r cysylltiad. Cynorthwyodd Cronfeydd Elusennol Betsi Cadwaladr ddau o blith tri aelod mewn ail ymweliad asesu anghenion i archwilio agweddau ar ofal cychwynnol ac iechyd cyhoeddus yn ymwneud â'r system iechyd. Digwyddodd hyn ym mis Chwefror 2013, gan ddefnyddio dull asesu anghenion ar sail asedau, a'r teimlad oedd mai dyna oedd yr ymagwedd fwyaf defnyddiol yn yr amgylchiadau hyn. Yn wir, cadarnhawyd hyn gan adroddiad cyfoethog iawn ac roedd hwn i'w weld yn arbennig o ymatebol i'r anghenion a fynegwyd gan bartneriaid.

Cyswllt Ysbyty Glan Clwyd / Ysbyty Hossana (Ethiopia)



Nod cyffredinol ein cyswllt iechyd yw meithrin perthynas hirdymor rhwng y ddau ysbyty. Bydd cyswllt o'r fath yn gwella dealltwriaeth pob partner o faterion iechyd byd-eang. Yr amcanion pennaf yw helpu i wella capasiti yn Ysbyty Hossana drwy addysgu a hyfforddi, darparu offer ac arbenigedd a thrwy brosiectau isadeiledd y cytunir arnynt ar y cyd. Cytunir ar yr holl weithgareddau hyn rhwng y grŵp cyswllt yn Ysbyty Glan Clwyd a'r tîm rheoli ysbytai yn Hossana.

Nyrs Staff Annie Myers gyda'r Brif Weinyddes Nyrsio yn Hossana

Y llynedd, fe wnaethpwyd y canlynol:



- Cwblhau prosiect codi tŵr dŵr ac adfer y system garthffosiaeth yn Ysbyty Hossana
- Ariannu cwrs offer deintyddol a rheoli heintiau yn Hossana wedi'i gynnal gan iechydwr a'r staff meddygol lleol
- Ymweliad gan staff y DU ym mis Chwefror 2013 i gynnal cwrs tridiau ar drawma, rheoli heintiau, meddygaeth anadlol a phaediatreg ar gyfer swyddogion iechyd a myfyrwyr gradd meistr. Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau fferyllol, addysgu rheoli heintiau ar y wardiau ac efallai'n fwyaf effeithiol, fe wnaeth plymwr gwirfoddol o Ogledd Cymru osod tapiau mewn wardiau, theatrau ac adrannau

cleifion allanol, er mwyn cludo'r cyflenwad o ddŵr at y rhan fwyaf o ardaloedd yn yr ysbyty
- Nifer o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn Ysbyty Glan Clwyd, gan gynnwys dawns yr haf i'r meddygon iau



Coleg Gwyddorau Iechyd Meddygaeth Hawassa

Cyswllt Ysbyty HMS Stanley / Ysbyty Yirga Alem

Ym mis Mawrth 2012, ymwelwyd ag Ysbyty Yirga Alem gan gyflwyno rhaglen addysgu ddwys ar gyfer 9 nyrs offthalmig. Addysgwyd offthalmoleg gyffredinol a phlygiant i nyrsys a gymhwysodd yn ddiweddarach ym mis Mehefin 2012. Aethant yn eu blaenau i weithio mewn unedau llygaid eraill yn Ne Ethiopia, yn aml ar eu pennau eu hunain mewn cymunedau difreintiedig lle mae lefelau uchel o glefydau ar y llygaid.

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd newyddlen ar-lein, cyflwynwyd poster yng nghyfarfod Cymru o Blaid Affrica yng Nghaerdydd a threfnwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian gan gynnwys Diwrnod Addysgu Meddygon Teulu ac arwerthiant cist car.

Ymrwymiad Amgylchedd

Crynhoir ein perfformiad yn 2012/13, a mesurwyd gan set o ddangosyddion allweddol, yn y tabl canlynol:

Maes Adrodd	Perfformiad 2011/12	Cymhariad Blynyddol	Perfformiad 2012/13	Cymhariad Blynyddol	Nodiadau Targed
Gollyngiadau Nwyon Tŷ Gwydr (Ynni) tC02	46,235	-5.71%	46,994	1.64%	3% blwyddyn ar ôl blwyddyn Coch
Defnydd Ynni yr Ystâd (kWh) Cost Ynni yr Ystâd	164,111,341 £7,648,489	-5.67% 20.91%	172,124,178 £8,829,339	4.88% 15.44%	3% blwyddyn ar ôl blwyddyn Coch
Gwastraff yr Ystad (Tunnell) Cost Gwastraff yr Ystâd	4,161 £1,058,100	-7.31% -5.64%	4,160 £1,056,031	-0.02% -0.20%	3% blwyddyn ar ôl blwyddyn Coch
Defnydd Dŵr yr Ystâd (m3) Cost Dŵr yr Ystâd	530,375 £1,111,318	-4.70% -5.36%	457,704 £1,208,722	-13.70% 8.76%	3% blwyddyn ar ôl blwyddyn Coch
Defnydd o Drafnidiaeth â Pherchnogaeth Gorfforaethol (tC02) Trafnidiaeth â Pherchnogaeth Gorfforaethol (Milltiroedd)	4,065 16,094,798	10.79% 9.21%	5,032 15,900,053	23.79% -1.21%	Fflyd â Pherchnogaeth Dir Hepgorwyd yn 2011/12

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol i'r amgylchedd, rydym yn gweithredu System Reoli Amgylcheddol (EMS), a gynlluniwyd i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygu cynaliadwy
- Cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a llywodraethol perthnasol
- Atal llygredd
- Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd
- Diwylliant o welliant parhaus

Er mwyn sicrhau bod gennym reolaeth amgylcheddol effeithiol, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Creu Grŵp Llywio Amgylcheddol sy'n ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd o effeithiolrwydd yr EMS

- Hyrwyddo polisi amgylcheddol i bob rhanddeiliad perthnasol
- Nodi holl agweddau amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig sy'n codi o ddatblygiadau gwasanaeth, deddfwriaeth newydd a newidiadau eraill
- Sefydlu a monitro amcanion a thargedau sydd wedi'u hanelu at leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol
- Gweithredu archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd
- Gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni ymagwedd sector cyhoeddus cyson tuag at reolaeth amgylcheddol a sicrhau y nodir a gweithredir gweithdrefnau arferion gorau

Crynodeb o Welliannau Ynni a Gwastraff 2012/13

Mae proses ymestyn ISO 14001 at ein holl Ysbytai Cyffredinol Dosbarth wedi'i chwblhau bellach. Mae ein rhaglen tair blynedd yn ymestyn cofrestriad ISO 14001 at ein holl Ysbytai ym Mlwyddyn 2, ac yna i bob Clinig Iechyd erbyn dyddiad targed ym mis Rhagfyr 2014.

Mae Cynlluniau Gweithredu Amgylcheddol a rhaglenni archwilio allanol wedi'u hymgorffori yng ngweithdrefnau ISO 14001. Mae cynllun gweithredu yn unol â safon a fformat Llywodraeth Cymru wedi'i ddatblygu hefyd a chaiff y broses weithredu ei monitro a'i hadrodd bob blwyddyn. Byddwn yn mynd ar drywydd trefniadau partneriaeth sy'n bodoli eisoes a rhai newydd hefyd yn rhan o ddatblygu ein strategaeth lleihau carbon yn barhaus.

Ymhlith y prosiectau ynni a gynhaliwyd yn ystod 2012/2013 mae'r canlynol:

1. Mae cynllun yn yr arfaeth i osod generadur gwres a phŵer cyfunedig (CHP) newydd gan ddefnyddio generadu triphlyg yn y Marwdy a'r Labordy Patholeg newydd yn Ysbyty Glan Clwyd
2. Mae astudiaeth ac adroddiad o ddichonoldeb wedi'u cynnal i osod cynwysyddion biomas yn Ysbyty Bryn Beryl a safleoedd o faint cysylltiedig
3. Mae strategaethau corfforaethol casglu data yr Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) a gwaith paratoi gweithgareddau wedi'u cynnal
4. Mae archwiliad dŵr ac arolwg o gyflwr isadeiledd wedi'u cynnal yn Ysbyty Glan Clwyd
5. Mae strategaeth adnoddau gweithredol byrdymor (STOR) a strategaeth reoli Triad wedi'u rhoi ar waith yn llwyddiannus yn Ysbyty Gwynedd. (Cynnydd net o CO2, ond yn arbediad cardon ardderchog ar gyfer y Rhwydwaith Trydan Cenedlaethol)
6. Mae astudiaeth ardal leol o brosiect cynhyrchu sglodion pren wedi'i chynnal ar y cyd â Phartneriaid Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd
7. Mae prosiect adnewyddu mawr wedi dechrau ar y ganolfan ynni yn Ysbyty Glan Clwyd

O gymharu data gwastraff flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r ffigyrau a adroddwyd ar gyfer 2012 yn cadarnhau i gyfradd ailgylchu ein safleoedd gynyddu o 19% i 25%, sy'n fwy na'r targed o 3% ar gyfer cynnydd blynyddol a bennwyd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol.

Caiff y ganran ei chyfrifo ar sail cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir (gan gynnwys gwastraff clinigol) ac ystyrir bod hynny ar hyn o bryd yn golygu gwastraff nad oes modd ei ailgylchu 100%, ac mae'n cynrychioli 1500 o dunelli o'r 4160 o dunelli a gynhyrchir bob blwyddyn. Mae SRCL, sef contractwr trin gwastraff GIG Cymru, yn datblygu defnyddiau sy'n fasnachol ymarferol ar gyfer cynhyrchion terfynol prosesau trin gwastraff clinigol a rhagwelir y bydd defnyddio'r cynhyrchion hyn yn llwyddiannus yn fuddiol i ffigyrau ailgylchu'r holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru.

Mae ffigurau 2013 yn dangos bod gwelliannau a gofnodwyd ar gyfer 2012 wedi parhau flwyddyn ar ôl blwyddyn. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2013, cafodd 980 o dunelli o wastraff eu hailgylchu o gymharu â 742 o dunelli yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae ein Tîm Amgylchedd wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Phartneriaethau Cydwasanaethau Gogledd Cymru i ddatblygu contract gwastraff cyffredinol. Mae contractwyr wedi'u dewis ac mae'r adroddiad tendro'n mynd trwy'r broses gymeradwyo. Mae'r contract hwn yn canolbwyntio ar weithio gyda chontractwyr i wella cyfraddau ailgylchu. Mae'r contract hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r ddau Fwrdd Iechyd weithio gyda sefydliadau eraill ar fentrau rheoli gwastraff cynaliadwy heb beryglu telerau'r contract.

Rydym wedi cyflwyno ceisiadau llwyddiannus i Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) ar gyfer grantiau ailgylchu er mwyn cynorthwyo prynu biniau ailgylchu ychwanegol ar gyfer mannau cleifion ac ymwelwyr ar safleoedd yr ysbyty. Bydd hyn yn gwella proffil ailgylchu ymhlith y cyhoedd yn sylweddol ac yn atgyfnerthu'r cynlluniau ailgylchu cymysg presennol ar gyfer deunydd plastig, caniau, papur a chardbord.

Cyflwynwyd gweithdrefnau newydd ar gyfer rheoli gwastraff cyfrinachol yn 2012. Rhwygo yn y fan a'r lle yw'r arfer safonol ar gyfer disensiteiddio testun ar ffurf copi caled erbyn hyn. Ochr yn ochr â'r gweithdrefnau newydd mae'r trefniadau ar gyfer ailgylchu'r deunydd sy'n cael ei rwygo. Mae mwy na 47 o dunelli o garpion papur wedi'u hailgylchu ers cyflwyno mesurau rhwygo papur ar safleoedd.

Er bod cryn ymdrech wedi'i gwneud i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi cydnabyddir y bydd canrannau ailgylchu'n prysur wastatáu. Amcan y Tîm Amgylcheddol yn y tymor hwy yw gweithio gyda chydweithwyr a rhanddeiliaid y GIG i atal gwastraff a hybu ailddefnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. Mae'r hierarchaeth wastraff, sy'n hyrwyddo atal ac ailddefnyddio uwchlaw ailgylchu, yn ganolog i'n polisi rheoli gwastraff.

Mae ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff yn ategu'r mentrau amgylcheddol. O fewn y 12 mis diwethaf, mae diweddariad ar gwrs cynefino e-ddysgu wedi'i gyflwyno ar gyfer staff newydd a rhai rheolwyr. Mae staff porthora wedi cofrestru ar dystysgrif *City & Guilds* mewn Rheoli Gwastraff Cynaliadwy a chyrsiau diploma.

Gofal Cychwynnol ac Ardaloedd Lleol

Mae 90% o gleifion yn dod i gyswllt â'r gwasanaeth iechyd drwy Ofal Cychwynnol: mewn meddygfeydd meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion ac optegwyr.

Yng ngogledd Cymru mae gennym ychydig dros 400 o feddygon teulu yn gweithio mewn 115 o bractisau a 52 o feddygfeydd cangen yn ogystal â 154 o fferyllfeydd, 90 o unedau optometreg gyda 204 o optegwyr a 243 o ddeintyddion yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau'r GIG mewn 101 o ddeintyddfeydd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gontractwyr annibynnol neu fusnesau sydd â chytundebau gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau i gleifion y GIG.

Er nad ydym yn cyflogi'r rhan fwyaf o'r darparwyr gofal cychwynnol hyn yn uniongyrchol, fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gyfrifol am sicrhau bod eu gwasanaethau'n cwrdd ag anghenion cleifion, yn cwrdd â safonau ansawdd a diogelwch ac am gydlynu eu gwaith gyda rhannau eraill o'n gwasanaethau cymuned ac ysbyty

Mae pob contractwr annibynnol yn gysylltiedig ag un o'r 14 o ardaloedd lleol rydym wedi'u sefydlu ac mae gennym bartneriaid mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ar draws Gogledd Cymru. Mae Timau Arwain Ardaloedd Lleol wedi'u sefydlu ym mhob ardal leol, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain bellach yn sail i gynllunio a threfnu ein gwasanaethau iechyd cymunedol lleol a gweithio gyda'n partneriaid yn y sector gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol.

Mae pob ardal leol â Meddyg Teulu Arweiniol, Matron Ardal Leol, Fferyllydd, Therapydd, Gweithiwr Cymdeithasol a Chynrychiolydd Sector Gwirfoddol sy'n cyfarfod i adolygu a chynllunio gwasanaethau yn eu cymunedau lleol. Eu hamcanion pennaf yw:

- Hybu iechyd da nawr a hefyd helpu i sicrhau bywydau mwy iach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Gwella addysg cleifion fel y bydd gan bobl fwy o reolaeth dros reoli eu cyflwr
- Cynorthwyo pobl â chyflyrau hirdymor, gan sicrhau bod mwy o ofal ar gael yn nes at eu cartrefi yn hytrach nag ar brif safleoedd ysbytai

Mae'r ardaloedd lleol yn seiliedig ar ffiniau awdurdodau lleol, gyda rhai wedi'u rhannu'n ddwy neu dair ardal, fel bod pob ardal leol o gwmpas yr un maint, yn gwasanaethu poblogaeth o rhwng 30,000 a 50,000 o bobl. Cytunwyd ar yr ardaloedd lleol hyn gydag awdurdodau lleol gogledd Cymru.

Mae'r datblygiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Ehangu'r gwasanaeth Gofal Uwch yn y Cartref a dechrau ei gyflwyno ar draws Gogledd Cymru
- Cynnal cynllun peilot Cynllunio Gofal Uwch i bobl sydd yn neunaw mis olaf eu bywyd, fel bod modd i fwy ohonynt aros yn eu cartrefi eu hunain neu leoliadau preswyl eraill wrth i ni ofalu amdanynt tuag at ddiwedd eu bywydau
- Datblygu cysyniad Canolfannau Ysbyty, yn unol â chynigion yn adolygiad gwasanaeth "Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid", er mwyn caniatáu darparu mwy o wasanaethau arbenigol mewn ysbytai cymunedol
- Clinig brest newydd lle mae meddyg ymgynghorol arbenigol yn ymweld â phractisau meddygon teulu i hybu ymagwedd gofal ar y cyd
- Mwy o gydleoli timau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwella cydweithio
- Parhau i ddatblygu gwasanaethau gwrthfiotig mewnwythiennol a thrallwysiadau gwaed yn y gymuned
- System cyfeirio brysbennu ffotograffig ar gyfer Dermatoleg
- Mae Eiriolwyr Dementia yn cael eu penodi a'u hyfforddi mewn meddygfeydd teulu er mwyn helpu i adnabod pobl â dementia ynghynt ac felly gwella gofal
- Mae cynlluniau ar y gweill i ddarparu mwy o glinigau asesu syrthio 'un alwad'
- Gwybodaeth well i gleifion er mwyn helpu pobl i fanteisio ar gymorth a gwasanaethau ymataliaeth
- Rhoi cynllun peilot ar ffurf Prosiect Fferylliaeth Gymunedol ar waith ar gyfer mân afiechydon yn Nwyfor – ar ôl cwblhau'r cam cyntaf, caiff ei gyflwyno ledled Gogledd Cymru
- Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hybu gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu
- Datblygu gwasanaeth 'teleadsefydlu' o bell, sy'n rhoi mynediad i gleifion at feddygon a staff iechyd eraill heb yr angen i deithio
- Gweithio'n agos â phractisau meddygon teulu i adolygu arferion cyfeirio, gan leihau'r angen am driniaethau llawfeddygol fel tonsilectomi

Rhan allweddol o waith gofal cychwynnol yw atal salwch a hybu iechyd da. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom welliannau sylweddol i gyfraddau imiwneiddio plant a'r ymateb i ymgyrch brechu yn erbyn ffliw tymhorol. Llwyddodd rhaglen a sefydlwyd mewn ymateb i achos o'r frech goch yn ne Cymru i gynyddu nifer y bobl ifanc a ddiogelwyd drwy'r brechiad MMR.

Rydym yn rhoi mesurau ar waith er mwyn helpu i ganfod pwysedd gwael uchel yn gynnar a'i reoli'n effeithiol (sydd â rôl allweddol i'w chwarae o ran atal clefyd cardiofasgwlaidd) a mentrau i gynorthwyo cleifion sydd am roi'r gorau i smygu, mynd i'r afael â gordewdra a bod yn fwy corfforol weithgar er mwyn gwella eu hiechyd.

Rydym hefyd yn gweithio i roi mynediad rhwyddach i bobl at wasanaethau meddygon teulu a deintyddol a rhoddwyd cynlluniau ar waith yn ystod y flwyddyn a fydd yn cynyddu darpariaeth ddeintyddol y GIG mewn ardaloedd o angen yng ngogledd Cymru dros y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni lunio Adroddiad Gwella Gofal Cychwynnol Manwl, sydd ar gael ar ein gwefan.

Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynnwys Pobl yn ein Cynlluniau

Mae gan y Bwrdd Iechyd, ynghyd â holl sefydliadau eraill y gwasanaeth iechyd, ddyletswydd statudol (gyfreithiol) i gynnwys pobl ac ymgynghori â nhw wrth gynllunio, datblygu a chyflwyno gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, nid dim ond y ddyletswydd gyfreithiol sy'n ei gwneud yn bwysig i ni gynnwys pobl - cleifion, gofalwyr a theuluoedd, grwpiau cymunedol lleol a llawer iawn eraill; gallwn gynllunio gwasanaethau'n well a'u cyflwyno'n fwy effeithiol os ydym yn gwybod am anghenion a barn pobl leol. Ni allwn fodloni dymuniadau pawb bob amser – ond gall clywed barn pobl a beth sydd ei angen arnynt helpu i lunio'r gwasanaethau rydym yn eu darparu. Weithiau mae'n rhaid ni wneud penderfyniadau anodd am wasanaethau ac mae angen i ni drafod gyda phobl leol pam mae angen i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud.

Mae cynnwys sefydliadau eraill – fel awdurdodau lleol, grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr cymuned leol – mewn trafodaethau am wasanaethau gofal iechyd o gam cynnar yn rhan bwysig o waith y Bwrdd Iechyd. Rydym wedi cytuno ar yr egwyddor o siarad â rhanddeiliaid pwysig am ein gwasanaethau. Drwy ddweud rhanddeiliaid, rydym yn sôn am bobl sydd â diddordeb yn y gwasanaeth gan eu bod yn gweithio yn y gwasanaeth, gweithio ochr yn ochr â'r gwasanaethau neu gyda nhw, yn defnyddio'r gwasanaethau neu y gallai unrhyw newidiadau effeithio arnynt.

Yn ystod 2012/13, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ffurfiol ar rai newidiadau i wasanaethau gofal iechyd, o'r enw "*Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn Newid'.* Roedd y newidiadau y cytunwyd arnynt yn effaith gronnus gwaith dros gyfnod o ddwy flynedd a oedd yn adeiladu ar adolygiadau blaenorol o wasanaethau iechyd yng Ngogledd Cymru. Cawsant eu cynllunio i wella ansawdd gofal ac i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Nod y newidiadau oedd darparu'r gwasanaethau y mae cleifion yn eu defnyddio'n fwyaf rheolaidd mor agos i'w cartrefi â phosibl, felly nid ydym yn derbyn pobl yn yr ysbyty os gallem ddarparu gofal mwy priodol yn lleol.

Eu nod oedd gwneud gwasanaethau ysbytai cymunedol yn fwy dibynadwy a chyson drwy sicrhau bod adnoddau ar gael mewn lleoliadau allweddol. Mae hyn yn golygu bod modd darparu gwasanaethau mân anafiadau a pheledr-x yn rheolaidd, fel bod cleifion yn gwybod eu bod yn gallu dibynnu arnynt.

Fodd bynnag, i rai ardaloedd lleol, roedd hyn yn golygu bod newidiadau mwy sylweddol, ac roedd rhai gwasanaethau'n cael eu hadleoli i ardaloedd cyfagos, fel y gallai gwasanaethau gael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardal ddaearyddol ehangach.

Yn achos gwasanaethau mwy arbenigol, bydd y newidiadau'n gwella ansawdd gofal drwy gynorthwyo arbenigo cynyddol a sicrhau bod y rhai y mae arnynt angen gofal cymhleth yn cael eu trin gan glinigwyr â lefel uchel o brofiad ac arbenigedd.

Rydym wedi rhoi diweddariadau ar gynnydd yn rheolaidd drwy gyfarfodydd y Bwrdd a grwpiau eraill. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau ar gael ar y wefan ar dudalen Ymuno â'r Drafodaeth

Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan? Os hoffech gael eich cynnwys ar ein cronfa ddata o bobl rydym yn rhoi gwybod iddynt am newidiadau mawr neu os hoffech gymryd rhan

mewn unrhyw drafodaethau a allai effeithio ar eich ardal leol, anfonwch eich enw a'ch manylion cyswllt i ymunwch@cymru.nhs.uk .

Gweithio gyda'n Partneriaid

I ddarparu gwasanaethau effeithiol a gwerth am arian, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sawl sefydliad statudol a gwirfoddol ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn ein galluogi i wneud gwell deunydd o'n adnoddau ac ychwanegu gwerth at y gwasanaethau rydym yn eu darparu drwy gydnabod rhyngddibynniaeth, rhannu arbenigedd, risgiau a buddion a chynllunio gwasanaethau o gwmpas anghenion y cleifion a dinasyddion.

Ein partneriaid allweddol yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a'r chwe awdurdod lleol, sef Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Rydym yn eistedd fel aelodau o'r pedair bartneriaeth statudol:

- Byrddau Gwasanaeth Lleol
- Partneriaethau Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (gan gynnwys Camddefnyddio Sylweddau)

Yn 2012/13, fe wnaethom y canlynol:

- Cyfrannu at adolygu Partneriaethau Statudol yng Nghonwy a Sir Ddinbych, gan arwain at greu Bwrdd Gwasanaeth Lleol unigol gyda strwythurau cynorthwyo diwygiedig ac aliniad agosach â'r ardaloedd ym mhob sir
- Gydag awdurdodau lleol, gwnaethom sefydlu Canolfan Comisiynu Rhanbarthol ar gyfer lleoliadau unigol ar gost fawr, gan wella ansawdd wrth leihau costau
- Gweithio gyda phartneriaid awdurdod lleol a thrydydd sector i roi gofynion Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ar waith
- Sefydlu prosiect iechyd meddwl cydweithredol gyda chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru i sicrhau bod gwasanaethau'n gyfartal ar draws y rhanbarth
- Datblygu a chymeradwyo Strategaeth Gwybodaeth Gofalwyr i wella mynediad at wybodaeth ar gyfer gofalwyr
- Gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i sefydlu arddangoswr 'un pwynt mynediad' fel y gall gweithwyr proffesiynol gyfeirio ar y cyd i'r Cyngor a'r Bwrdd er mwyn cael y gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer eu cleifion
- Gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid trydydd sector i gyflwyno gofal gwell i gleifion yn y gymuned
- Cynorthwyo Cymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych i ddatblygu manyleb gwasanaeth a phenodi Partner Cyflenwi ar gyfer Lles Emosiynol yng Ngogledd Sir Ddinbych, gan weithio gyda'r prif gorff cyflenwi, defnyddwyr gwasanaeth a'r trydydd sector
- Ymgysylltu â Thrafnidiaeth Gymunedol Cymru, Taith a darparwyr trafnidiaeth gymunedol leol i ystyried sut gall trefniadau trafnidiaeth hwyluso mynediad at wasanaethau iechyd

Yn ogystal â hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n gweithio ym maes gofal iechyd a chymorth. Yn 2012/13, gwnaethom fuddsoddi dros £6 miliwn yn comisiynu gwasanaethau gan sefydliadau sector cyhoeddus. Roedd meysydd gwaith allweddol yn cynnwys:

- Gwasanaeth therapïau siarad newydd gan y trydydd sector, PARABL, i gynorthwyo'r rhoi Mesur Iechyd Meddwl ar waith yng Ngogledd Cymru
- Ariannu hwyluswyr i weithio gyda Chynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol i helpu sefydliadau gwirfoddol i ddatblygu er mwyn cynorthwyo gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru
- Gweithio gyda'r Groes Goch Brydeinig i gynllunio gwasanaethau cadeiriau olwyn effeithiol yn y tymor byr
- Sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru fel y gall asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Ngogledd Cymru barhau i wneud addasiadau er mwyn caniatáu i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain lle bynnag y bo'n bosibl
- Cydweithio â'r Groes Goch Brydeinig ac Ambiwlans Sant Ioan i ddarparu trafnidiaeth ar gyfer staff a chleifion yn ystod cyfnodau tywydd garw
- Darparu cyllid cynyddol ar gyfer Cam wrth Gam er mwyn gwella eu capasiti i gwrdd â galw ychwanegol a grëir gan Ymgyrch Pallial ac ymdriniaeth y wasg â chamdriniaeth hanesyddol yng ngogledd Cymru

Datblygiad Sefydliadol

Mae Datblygiad Sefydliadol yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau gwelliannau cynaliadwy, creu gwybodaeth a gwireddu potensial er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu fel sefydliad a pherfformio uchel. Yn ystod 2013, mae'r ffocws wedi bod ar barhau i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth i sicrhau bod gan ein harweinwyr meddygol, clinigol a busnes y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i arwain ein gwasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Rydym yn darparu amrywiaeth o raglenni datblygiad arweinyddol ar gyfer staff ar bob lefel, o Benaethiaid Staff at oruchwylwyr mewn swyddi is. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi datblygu rhaglenni datblygiad arweinyddol pwrpasol ar gyfer gwasanaethau penodol i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yn cael eu datblygu i gefnogi gofynion darparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel ac yn ddiogel.

Ar ôl creu a mabwysiadu ein gwerthoedd a'n hymddygiadau, rydym wedi gweithio ar sicrhau bod y gwerthoedd yn rhan sylfaenol o brosesau fel y Rhaglen Gynefino ar gyfer aelodau newydd o staff, yr Adolygiad Perfformiad a Datblygiad a datblygu Pecyn Offer at ddefnydd rheolwyr gyda'u staff i ddangos a dathlu sut mae'r gwerthoedd yn cael eu defnyddio yn ymarferol.

Mae ymgysylltu â gweithwyr yn parhau i fod yn faes allweddol o waith, mae gwrando ar lais staff yn elfen bwysig o waith datblygiad sefydliadol. Mae arolygon diwylliant byr wedi cael eu datblygu sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad parhaus y sefydliad. Cafodd Arolwg Staff GIG cenedlaethol ei lansio ar ddechrau 2013 a bydd y canlyniadau'n elfen fawr o waith datblygiad sefydliadol yn y flwyddyn sydd ar ddod.

Ceir ymchwil sylweddol sy'n dangos cydberthyniad rhwng prosesau gwerthuso effeithiol a boddhad staff, eu cymhelliad a darparu gofal o ansawdd uchel, sy'n ddiogel.

Ymgymerwyd â gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn hon i wella'r broses werthuso trwy roi polisi ar waith, cyflwyno proses fwy syml a monitro cydymffurfiad yn ofalus. Fodd bynnag, rydym yn adnabod bod gennym fwy i wneud i wella cyfraddau gwerthuso.



Ei wneud yn Well

Rydym bob amser yn ymdrechu i wella profiad pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wella ein hymarfer a gofal clinigol, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn trin pawb â pharch, urddas a thosturi, a chefnogi iechyd a lles unigolion ar draws Gogledd Cymru.

Profiad Defnyddwyr y Gwasanaeth

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi dilyn dull strategol i sicrhau bod cleifion wrth galon penderfyniadau am eu gofal. Mae hyn yn cynnwys nifer o fentrau rydym wedi'u cyflwyno i sicrhau bod yr athroniaeth hon yn rhan sylfaenol o waith y sefydliad o ddydd i ddydd.

Gwirfoddoli



Bu cynnydd o 20% yn nifer y 'Gwirfoddolwyr Robin' yn ein hysbytai llym a chymuned, ac mae'r cyfanswm bellach bron â bod yn 200. Rôl y Robin yw darparu gwasanaeth croesawu, cefnogi, tywys a dangos y ffordd i gleifion ac ymwelwyr. Rydym wedi sefydlu Canolfan Gwirfoddolwyr yn Ysbyty Maelor Wrecsam i helpu i recriwtio gwirfoddolwyr ychwanegol.

Robiniaid yn Ysbyty Llandudno

Dysgu o Storïau Cleifion

Pwrpas storïau cleifion yw gwrando ar brofiadau cleifion, perthnasau a gofalwyr a dysgu o'r profiadau hyn.

Rydym yn defnyddio'r storïau hyn yn rheolaidd ar gyfer hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth staff a rhannu ymarfer da. Yn ystod 2012/13, gwnaethom gymryd y camau canlynol i wella profiadau cleifion:

- Cyhoeddwyd Hysbysiad o ran Diogelwch Cleifion yn manylu ar arweiniad ymarfer gorau wrth gyfathrebu ag unigolyn sy'n fyddar ac yn ddall, neu wrth ofalu am unigolyn o'r fath
- Argymhellwyd modiwl Ymwybyddiaeth o Golled Synhwyraidd fel modiwl gorfodol ar gyfer Gweithwyr Cefnogi Gofal Iechyd
- Adolygu cefnogaeth bwydo ar y fron ar Wardiau Plant

- Gwell gwybodaeth i gleifion a gofalwyr am ein Gwasanaethau Ychwanegol Gofal yn y Cartref
- Dyddiaduron wrth ochr y gwely mewn Unedau Gofal Dwys

Cynllun Cardiau Sylwadau

Mae defnyddwyr y gwasanaeth wedi dweud wrthym y byddem yn hoffi darparu awgrymiadau neu sylwadau i ni am y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn. Rydym wedi dylunio, ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth, cynllun cerdyn sylwadau rhadbost ac electronig. Mae'r cardiau hyn yn caniatau ar gyfer adborth dienw ac maent yn system rhybuddio cynnar.

Canmoliaeth yw cyfran uchel o'r sylwadau, fodd bynnag mae rhai yn nodi meysydd ar gyfer gwella, sy'n gallu cael eu datrys yn gyflym mewn llawer o enghreifftiau, er enghraifft darparu gwresogi ychwanegol mewn adran cleifion allanol yn ystod rhaglen ailwampio neu well arwyddion.

Moderneiddio a Gwella Gwasanaeth

Mae'r tîm Gwella Gwasanaethau a Chefnogi Busnes yn cefnogi timau clinigol a heb fod yn glinigol yn gyson i ddatblygu a gwella gwasanaethau i'n cleifion.

Gwella gallu a llif cleifion ar gyfer gofal a gynlluniwyd

Mae lleihau rhestrau aros ac amseroedd aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd yn flaenoriaeth ac mae'r tîm wedi gweithio gyda theatrau, radioleg, endosgopi a therapïau seicolegol. Maent wedi gweithio gyda thimau lleol i gael gwared ar gamau diangen yn llwybr y claf, gan arwain at driniaeth effeithiol a mwy cyflym sydd yn ei dro yn gallu lleihau straen a phryder i gleifion.

Hefyd mae gwaith wedi mynd rhagddo â gwell adferiad ar ôl llawdriniaeth orthopaedig ac rydym wedi cychwyn rhaglen gwell adferiad ar ôl llawdriniaeth colorhefrol.

Mae'r rhaglen gwell adferiad yn rhoi'r claf yng nghanol ei ofal. Mae'n gwneud yn siŵr ei fod wedi'i addysgu yn dda am ei driniaeth cyn llawdriniaeth fel ei fod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn gallu gwneud penderfyniadau deallus am ei driniaeth. Bydd ef yn dilyn llwybr gofal sy'n cyflymu ei adferiad fel ei fod yn gallu gadael ysbyty ar ôl arhosiad byrrach a gwella llawer yn fwy cyflym nag yn achos dulliau traddodiadol o ymwneud â gofal. Mae boddhad cleifion â'r gwasanaeth hwn yn ardderchog ac mae deilliannau yr adroddwyd arnynt yn dangos gwelliant sylweddol.

Hefyd mae'r tîm wedi cefnogi sesiynau addysgol i helpu i wella ymarferion rhyddhau ar draws y Bwrdd Iechyd.

Gofal Heb ei Drefnu

Gofal heb ei drefnu (USC) yw unrhyw gyfnod iechyd neu ofal cymdeithasol heb ei gynllunio ymlaen llaw. Mae'n cynnwys cefnogaeth i gleifion yn eu cartref, apwyntiadau brys neu argyfwng â Meddyg Teulu, gwasanaethau adran achosion brys ac ambiwlans 999 a thriniaeth brys mewn ysbyty.

Mae ymgyrch Dewis Doeth yn rhan bwysig o hyn, yn helpu cleifion i wneud y defnydd gorau o wasanaethau'r GIG, a hybu hunan ofal lle bo hynny'n briodol.

Rhaglenni 1000 o Fywydau a Mwy

Mae'r tîm wedi cefnogi rhoi llawer o raglenni 1000 o Fywydau a Mwy ar waith i wella deilliannau cleifion:

- **Gwella Arweinyddiaeth er mwyn Gwella Ansawdd** (teithiau crwydr, lleihau marwolaethau)
- **Gwella gofal llym** (gofal y geg a salwch llym)
- **Gwella Gofal Llawfeddygol** (llawdrinaieth colorhefrol, rhestrau gwirio llawfeddygol)
- **Gwella gofal cychwynnol a chymunedol** (gofal strôc, codymau)
- **Iechyd meddwl** (iselder mewn ysbytai, gofal dementia)

Bydd hyn yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lansio rhaglen Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd (IQT) yn y Bwrdd Iechyd. Fframwaith safonol o sgiliau gwella craidd ar gyfer holl staff GIG Cymru yw hwn, a fydd yn eu helpu i chwarae rôl hanfodol wrth drawsnewid y gwasanaethau maent yn ymwneud â hwy.

Gofal Dementia

Fel rhan o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i wella profiad cleifion â dementia sy'n cael eu derbyn i wardiau cyffredinol ysbyty, mae'r Cynllun Pili Pala wedi cael ei roi ar waith ar draws y sefydliad, wedi'i ariannu gan Elusen BIPBC Awyr Las.



Mae'r Cynllun Pili Pala yn caniatáu i bobl y mae dementia wedi effeithio ar eu cof yn barhaol fynegi hyn yn glir i staff Ysbyty as mae'n darparu strategaeth syml ac ymarferol i'r staff i ddiwallu angenion unigolyn y bobl hyn. Bydd cleifion yn derbyn gofal mwy effeithiol a phriodol, lleihau eu lefelau straen a chynyddu eu diogelwch a lles, wrth gynorthwyo staff sy'n darparu gofal i gleifion â dementia.

Egwyddorion ar Gyfer Gwella

Byddwn yn derbyn cwynion, pryderon, sylwadau a chanmoliaeth gan gleifion, eu ffrindiau a'u perthnasau a chynrychiolwyr gan gynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cynghorau Iechyd Cymuned ac eiriolwyr. Mae'r wybodaeth a gawn o bryderon ac ymchwiliadau yn gael ei defnyddio i'n helpu i wella ein gwasanaethau a'n helpu i gwrdd â disgwyliadau ein cleifion.

Mae Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn manylu ar y ffordd bydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn rheoli cwynion, hawliadau a digwyddiadau (sy'n cael eu galw'n bryderon gyda'i gilydd). Mae'r trefniadau hyn yn cynrychioli newid sylweddol yn niwylliant y gwasanaeth o ran sut mae'n delio â phethau sy'n mynd o chwith. Maent yn cyflwyno un dull cyson ar gyfer graddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys yr unigolyn sy'n codi'r pryder a darparu iawn pan fo hynny'n briodol. Fodd bynnag, efallai na fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r niwed mae toriad mewn dyletswydd gofal darparwr gofal cychwynnol yn ei achosi.

Mae staff yn parhau i dderbyn hyfforddiant am y dull hwn o weithredu, ac maent yn cael eu cefnogi i ddatrys unrhyw broblemau fel maent yn codi a bod yn agored os bydd rhywbeth wedi mynd o chwith.

Pan fydd ymchwiliadau yn nodi bod yna wersi i'w dysgu, bydd cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r rhain a byddant yn cael eu monitro yn rheolaidd nes bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl weithredoedd wedi cael eu cwblhau.

Yn ystod 2012/13:

- Derbyniwyd 10,310 canmoliaeth
- Deliwyd â 1,701 pryder anffurfiol yn y fan a'r lle
- Derbyniwyd 1,597 pryder ffurfiol; cafodd 91% o'r rhain gydnabyddiaeth o fewn 2 diwrnod gwaith
- Derbyniodd 675 (42%) o bryderon ffurfiol ymateb llawn o fewn 30 diwrnod gwaith; roedd 713 (45%) o bryderon ffurfiol yn ymwneud ag achosion mwy cymhleth a oedd yn cymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt a gwnaethant dderbyn ymateb llawn ar ôl mwy na 30 diwrnod gwaith
- Cyfeiriwyd 86 pryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ymchwilio iddynt
- Adroddodd staff ar 12,788 digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion, o'r rhain roedd 9,965 (bron 80%) yn perthyn i gategori na fyddai'n achosi niwed neu'n achosi mân niwed yn unig. Mae'r digwyddiadau hynny sy'n perthyn i gategori a fyddai o bosibl yn achosi niwed yn debygol neu debygol iawn o achosi niwed yn cael eu hymchwilio ar y lefel briodol ac mae gwersi'n cael eu dysgu pan fo hynny'n angenrheidiol
- Derbyniwyd 289 o hawliadau cyfreithiol ffurfiol newydd; roedd 220 yn hawliadau esgeulustra clinigol ac roedd 69 yn hawliadau anaf personol; death 133 hawliad i ben yn ystod y flwyddyn

Yr Iaith Gymraeg

Unwaith eto, cafodd cynnydd sylweddol ei wneud wrth ddarparu gwasanaeth trwy'r Gymraeg a thrwy'r Saesneg.

Rydym wedi penodi Hyrwyddwr Cymraeg ym mhob Grŵp Rhaglen Glinigol a bellach byddant yn cyfarfod fel Grŵp Gweithredol yr Hyrwyddwyr i rannu gwybodaeth ac ymarfer da. Mae cynrychiolwyr o'r grŵp yn mynychu Fforwm Iaith Gymraeg y Bwrdd i ddarparu'r newyddion diweddaraf am waith a gyflawnwyd ac i adrodd ar unrhyw gynnydd neu bryderon.



Un o lwyddiannau'r flwyddyn oedd ein stondin yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Roedd y stondin yn boblogaidd iawn â'r cyhoedd a ffurfiwyd partneriaeth waith dda ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau digwyddiad llwyddiannus.

Cynhaliwyd Cynhadledd a Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2012 yng Nghaerdydd a gwnaethom gyflawni 3 gwobr cydnabyddiaeth arbennig a hwyluso gweithdai yn ystod y diwrnod.

Yn ystod y flwyddyn, ni oedd testun 'Ysbyty', rhaglen deledu 'pryf ar y pared' pedair rhan Cymraeg ar gyfer S4C a oedd yn tywys gwylwyr i ganol bywyd bob dydd yn Ysbyty Gwynedd. Roedd gwylwyr yn gallu gweld sut roedd unedau amrywiol yr ysbyty'n gweithio, a chyfarfod â rhai o'r staff a chleifion. Hefyd roeddem yn rhan o'r rhaglen Gymraeg 'Ysbyty Plant' a oedd yn dilyn plant a oedd yn derbyn triniaeth arbenigol ar y cyd mewn ysbytai y tu allan i Gymru h.y. Alder Hey yn Lerpwl ac yng Ngogledd Cymru.

Roeddem yn rhan o ddatblygiad y Ffurflenni Cydsyniad Dwyieithog newydd ar gyfer Cymru gyfan, gan gydnabod pwysigrwydd iaith gyntaf yn y broses o sicrhau cydsyniad ar adeg sy'n gallu bod yn un llawn straen i gleifion.

Llwyddodd yr Uned Iaith Gymraeg i sicrhau arian oddi wrth gronfeydd elusennol i ddarparu cyrsiau i gynyddu hyder staff wrth ddefnyddio eu Cymraeg. Mynychodd 40 aelod o staff ar draws Gogledd Cymru ac roedd yr adborth yn dynodi bod y prosiect yn llwyddiannus iawn.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Yn dilyn datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol y llynedd, a oedd yn ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, rydym wedi bod yn gweithio i roi blaenoriaethau eleni ar waith.

Mae ein pwyslais wedi bod ar gynyddu gallu yn y sefydliad a sicrhau ymhellach bod egwyddorion cydraddoldeb a hawliau dynol yn rhan annatod o'r holl swyddogaethau perthnasol i sicrhau bod gwerthoedd tegwch, parch, urddas ac ymreolaeth yn cael eu hystyried yn briodol yn y sefydliad ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel. Mae hyn wedi cynnwys asesu effaith newidiadau i wasanaethau mewn perthynas â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol, a gweithio â rhanddeiliaid i gryfhau ein craffu a sicrhau bod hyn yn rhan annatod o'n prosesau adolygu gwasanaethau a datblygu polisïau.

Rydym wedi alinio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol â'r broses gynllunio busnes, bellach mae cynlluniau gwasanaeth grwpiau rhaglen glinigol yn adlewyrchu blaenoriaethau cydraddoldeb.

Rydym wedi bod yn hyfforddi ein staff mewn asesu'r effaith ar gydraddoldeb a hefyd y pecyn E-ddysgu ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae "Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau" yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff ar bob lefel ar draws y Bwrdd Iechyd.

Gan weithio gyda'n staff rydym wedi gwella'n sylweddol ein gallu i fonitro nodweddion gwarchodedig ein gweithwyr, ac adrodd ar hyn, er mwyn cael gwell dealltwriaeth o broffil ein gweithlu a diwallu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran adrodd. Rydym wedi ymuno â Chynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall eleni, wedi cymryd rhan ym mynegai cydraddoldeb y gweithle ac yn gweithio mewn partneriaeth i yrru amrywiaeth o fentrau yn y gweithlu ymlaen.

Ymchwil a Dysgu

Effeithiolrwydd Clinigol

Effeithiolrwydd clinigol yw term a ddefnyddir i gwmpasu dull o ddarparu gofal cleifion a seiliwyd ar dystiolaeth, gwneud yn siŵr bod y pethau cywir yn digwydd, i'r cleifion cywir ar yr amser cywir ac mae'n ceisio gwella deilliannau a phrofiadau'r claf trwy welliannau i wasanaethau.

Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael cyfleoedd ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a gweithgareddau gan gynnwys ymchwil a datblygiad (YaD), archwilio clinigol a datblygu llwybrau gofal i gefnogi gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol yn glinigol.

Ymchwil a Datblygiad (YaD)

Mae Ymchwil a Datblygiad yn rhoi cyfle i archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu gofal iechyd sy'n fwy diogel, effeithlon ac effeithiol.

Yn 2012/13, gwnaethom gefnogi oddeutu pedwar cant o brosiectau ymchwil 'byw' ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r rhain yn darparu cyfleoedd i recriwtio cleifion ar gyfer treialon clinigol ac i staff ddatblygu sgiliau newydd trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn athrofeydd academaidd a diwydiant. Mae gan y GIG yng Ngogledd Cymru hanes hir o weithio mewn partneriaeth â'r Prifysgolion ym Mangor a Wrecsam ac fel Bwrdd Iechyd Prifysgol rydym yn ehangu ein gweithgareddau academaidd ac ymchwil. Eleni, rydym wedi gweld nifer o ddatblygiadau cyffrous, fel:

- Trafodaethau â Phrifysgol Bangor i ddatblygu Cyfleuster Ymchwil Clinigol i hybu, annog ac ymgymryd â phrosiectau ymchwil arloesol
- Penodi staff ar lefel Cymru Gyfan i gefnogi arloesi a datblygu â diwydiant a busnesau lleol ac un sydd yn cefnogi Gogledd Cymru yn benodol
- Mae nifer o geisiadau a gyflwynwyd i gynllun grant Llywodraeth Cymru 'Ymchwil er Budd Cleifion a'r Cyhoedd' (Research for Patient and Public Benefit) wedi cael eu dewis i fynd ymlaen i'r ail gam i'w hystyried ar gyfer cyllid, (bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael gwybod yn ystod haf 2013)

Yn dilyn argymhellion Arolygiad Ymarfer Da Clinigol Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) ym mis Ionawr 2012, mae cynnydd wedi cael ei wneud i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i gefnogi ymchwil diogel sydd o ansawdd uchel.

Mae mentrau â Phrifysgol Bangor â chefnogaeth Prifysgol Glyndŵr eisoes wedi arwain at ddatblygu systemau i gefnogi ymchwilwyr lleol a chenedlaethol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gefnogi recriwtio oddeutu 2,500 o gleifion i gymryd rhan mewn treialon ymchwil gan ddarparu cyfleoedd i gleifion gyfrannu at ddatblygiad triniaethau a gwasanaethau gofal iechyd yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gefnogi staff i ddatblygu arbenigedd a gwybodaeth ymchwil trwy gymryd rhan mewn astudiaeth bersonol i ennill cymwysterau academaidd uwch i gyflenwi sgiliau clinigol. Mae gennym fwy na 30 aelod o staff (meddygol a heb fod yn feddygol) â chontractau ymchwil anrhydeddus mewn prifysgolion ar draws Cymru a Lloegr.

Archwiliad Clinigol

Proses craffu ar ein hymarfer lleol yn erbyn safonau a dderbyniwyd yw Archwilio Clinigol, i wneud yn siŵr bod cleifion yn derbyn gofal sy'n unol ag ymarfer gorau. Mae ein Grŵp Archwilio Clinigol yn cynnwys aelod lleyg sy'n cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a datblygu prosesau archwilio clinigol. Mae hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod persbectif y claf yn cael ei ystyried bob amser.

Ar ddiwedd y flwyddyn, cyflwynodd Grwpiau Rhaglen Glinigol gynlluniau archwilio clinigol blynyddol a seiliwyd ar flaenoriaethau i'w galluogi i flaenoriaethu gweithgareddau i ddarparu gofal a seiliwyd ar dystiolaeth ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio yn briodol. Roedd y cynlluniau'n cynnwys pynciau a seiliwyd ar bryderon a risg lleol yn ogystal â rhaglenni archwilio cenedlaethol, safonau lleol a chenedlaethol a chanllawiau fel arweiniad NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae timau a staff clinigol wedi cymryd rhan mewn nifer o raglenni archwilio cenedlaethol ac ymchwiliadau cyfrinachol cenedlaethol a chofrestrwyd mwy na 450 prosiect archwilio clinigol lleol ar draws y Bwrdd Iechyd ac mae 150 wedi'u cwblhau.

Mae'r Adran Archwilio Clinigol yn darparu hyfforddiant gweithdrefnau archwilio clinigol i aelodau o staff a thimau clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd ac, ym mis Hydref 2012 cynhaliodd yr adran gyfarfod archwilio clinigol Cymru Gyfan i drafod a rhannu ymarfer gofal ar draws Cymru.

Mae gwaith archwilio wedi nodi cyfleoedd i wella addysg ac ymwybyddiaeth staff - er enghraifft mae rhaglen hyfforddi ar gyfer radiograffyddion wedi cael ei chyflwyno ynghyd ag algorithm yn dilyn Hysbysiad Cenedlaethol o ran Diogelwch Cleifion (National Patient Safety Alert) mewn perthynas â lleoliad tiwbiau naso-gastrig, i sicrhau amddiffyniad priodol ar gyfer cleifion sy'n cael pelydr-x ar eu pelfis a gwella ymchwiliadau wrolegol a gofal dilynol gan feddygon iau.

Llwybrau Gofal Integredig

Mae llwybrau gofal yn cefnogi dull o ymdrin â gofal cleifion a seiliwyd ar dystiolaeth, a ddatblygwyd wrth ystyried defnyddwyr y gwasanaeth, sy'n rhagweld y siwrnai gorau posibl ar gyfer cleifion ac yn cynnwys mesurau i fonitro gwelliant o ran ansawdd y gofal a ddarparwyd. Mae llwybrau gofal yn cael eu datblygu â chleifion a staff gofal iechyd ac yn mynd ar draws gofal cychwynnol ac eilaidd.

Er enghraifft, bu'r Adran Gastroenteroleg yn cydweithio ag Arweinydd Llwybrau BIPBC i ddatblygu llwybr dyspepsia a seiliwyd ar NICE, sydd wedi cael ei archwilio ganddynt yn dilyn hyn. O ganlyniad i ddarganfyddiadau, cytunwyd ar ffurflen gyfeirio generig ar draws BIPBC ac mae gwaith ar y gweill i adolygu a sgrinio ar gyfer cyfeiriadau amhriodol gan Feddygon Teulu.

Hefyd mae llwybrau gofal wedi cael eu datblygu o ganlyniad i gyfranogiad mewn rhaglenni archwilio cenedlaethol fel Archwiliad Cenedlaethol Dementia sydd wedi arwain at gefnogi a datblygu llwybr gofal integredig ar gyfer cleifion â dementia sy'n cael eu derbyn i wardiau meddygol cyffredinol.

Monitro a Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd

Fel corff cyhoeddus statudol, rydym yn destun i raglen gadarn o asesu, archwilio ac arolygu. Nod hyn yw sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol a deddfwriaethol, yn dynodi meysydd ar gyfer gwelliant ac yn sicrhau bod ein systemau a gweithdrefnau mewnol yn addas i'r diben.

Mae rhai asesiadau'n rhan o gynlluniau gwaith blynyddol gan archwilwyr mewnol ac allanol, mae rhai yn cael eu cychwyn gan Lywodraeth Cymru, ac mae rhai ar gais y Bwrdd Iechyd yn fewnol.

Mae Safonau Gofal Iechyd wrth wraidd ein gwelliannau parhaus o ran ansawdd gwasanaethau a gofal y mae gan boblogaeth Gogledd Cymru hawl i'w disgwyl. Bydd y Safonau Gofal Iechyd yn cael eu hadolygu ar bob lefel yn ein sefydliad a bydd meysydd ar gyfer gwelliant a thystiolaeth o ymarfer da yn cael eu monitro ac adroddir arnynt. Yn ogystal â'r Safonau mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i ni lenwi a chyflwyno Modiwl Hunan-asesu Llywodraethu ac Atebolrwydd blynyddol.

Mae'r modiwl Hunan-asesu Llywodraethu ac Atebolrwydd wedi bod yn destun i sicrwydd allanol annibynnol gan Bennaeth Archwilio Allanol sydd wedi cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd wedi dangos ei fod "yn datblygu cynlluniau a phrosesau ac yn gallu dangos cynnydd â rhai o'u meysydd allweddol ar gyfer gwelliant". Mae'r sicrwydd hwn wedi nodi ein bod yn yr un cyfnod o aeddfedrwydd â'r llynedd. Er bod cynnydd wedi cael ei wneud ar draws y rhan fwyaf o adrannau'r Modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd, daeth y broses graffu, a oedd yn cynnwys Aelodau Annibynnol y Bwrdd a Chyfarwyddwyr Gweithredol, i'r casgliad nad oedd y cynnydd a wnaethpwyd yn ddigon arwyddocaol i gynyddu'r sgoriau cyffredinol.

Gellir cael mwy o fanylion am yr asesiad Safonau Gofal Iechyd yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn y cyfrifon blynyddol cyflawn, sydd ar gael ar gais i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler tudalen 45 am fanylion cyswllt).

Iechyd Cyhoeddus

Mae nifer o ddangosyddion allweddol yn dangos bod iechyd a lles cyffredinol poblogaeth Gogledd Cymru yn dda o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae amrywiadau yn parhau o ran deilliannau iechyd rhwng gwahanol ardaloedd a chymunedau, ac mewn rhai achosion mae anghydraddoldebau o'r fath yn cynyddu, fel disgwyliad oes iach.

Mae ffactorau fel incwm, addysg a thai yn cael dylanwad mawr ar lefelau iechyd. Mae pobl mewn cymunedau gwaeth eu byd yn yr ardaloedd hyn hefyd yn fwy tebygol o ysmygu, peidio â gwneud ymarfer corff rheolaidd, peidio â bwyta diet iach, a gwneud penderfyniadau sy'n gallu peryglu eu hiechyd. Mae hyn yn golygu bod cymunedau tlotach yn tueddu i gael y statws iechyd gwaethaf sy'n effeithio ar hyd ac ansawdd bywyd, â chyflyrau cronig fel clefyd y galon, clefydau'r frest, diabetes a chanser yn gyffredin.

Mae Adroddiadau Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus wedi dilyn dull cwrs bywyd o ymdrin â hyn, gan edrych ar feysydd blaenoriaeth ag effaith fawr. Roedd adroddiad 2011 am 'Flynyddoedd Cynnar' yn dangos bod tystiolaeth gref ar gyfer ceisio gwella iechyd mamau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar helpu merched beichiog i roi'r gorau i ysmygu, hybu pwysau iach a diogel ar gyfer merched yn ystod beichiogrwydd, cryfhau iechyd meddwl merched cyn ac ar ôl genedigaeth, cynyddu nifer y mamau sy'n bwydo ar y fron, lleihau nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi a gwella cyfraddau manteisio ar frechiadau ar gyfer plant a merched beichiog. Gan weithio â phartneriaid yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, rydym wedi gwneud cynnydd cyson ond mae mwy o waith i'w wneud i gyflymu gwelliant o ran darpariaeth a deilliannau, yn enwedig o ran anghydraddoldebau iechyd.

Roedd Adroddiad Iechyd Cyhoeddus 2012 yn edrych ar 'Iechyd a Chyflawniad yn Hwyrach Mewn Bywyd'. Mae cymdeithas sy'n heneiddio yn adlewyrchu llwyddiant gwelliannau o ran iechyd ac ansawdd bywyd, a dylid dathlu hyn. Fodd bynnag, wrth i ni heneiddio rydym hefyd yn fwy tebygol o brofi salwch cronig, anabledd, a cholli annibyniaeth.

Mae atal ac ymyrraeth gynnar yr un mor bwysig ar yr adeg hon o fywyd ag ar unrhyw adeg arall, ac mae tystiolaeth dda ar gyfer manteision:

- Brechu rhag y ffliw
- Atal codymau yn hytrach na thrwsio toresgyrn
- Nodi a thrin salwch cronig yn gynnar yn y gymuned yn hytrach nag ymateb i argyfwng llym mewn ysbyty
- Hybu lles meddyliol da
- Cefnogi iechyd a lles gofalwyr
- Cynllunio a darparu gwasanaethau sy'n trin pobl ag urddas a pharch

Mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud wrth atal codymau. Gwnaethom arwain prosiect rhanbarthol aml-asiantaeth i ddatblygu modelau a seiliwyd ar dystiolaeth i atal codymau ar gyfer pobl hŷn yn eu cartrefi eu hunain, mewn cartrefi gofal, ac mewn ysbytai. Mae'r modelau yn tywys datblygiad gwasanaeth lleol yn gyson i sicrhau bod pobl sydd mewn perygl o gael codwm yn cael eu nodi yn gynnar, ac i roi gwasanaethau ar waith fel dosbarthiadau ymarfer corff cryfder a balans, adolygiadau meddyginiaeth ac asesiadau diogelwch cartref i leihau'r risgiau hynny

Yn gyson mae Gogledd Cymru yn cyflawni cyfraddau uwch o ran pobl hŷn sy'n cael brechiad rhag y ffliw na rhannau eraill o'r wlad: 70% yn 2012/13 oedd yr uchaf yng Nghymru, ond mae'n parhau i fod ychydig yn is na'r gyfradd darged cenedlaethol. Mae hyn oherwydd ymdrechion cyfun llawer o rannau o'r Bwrdd Iechyd a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol ehangach, yn enwedig ein gwasanaethau Gofal Cymunedol a Chychwynnol. Hefyd mae gweithlu gofal iechyd iach ac wedi cael brechiad yn bwysig i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd rhag y ffliw, ac mae'r her yn parhau i ddenu cyfraddau brechu uwch ymhlith staff.


Rydym yn parhau i gryfhau gwasanaethau cymunedol i gefnogi'r gwaith o atal cyflyrau cronig, eu nodi yn gynnar a'u rheoli. Yn lleol, rydym yn datblygu partneriaethau ag awdurdodau lleol a chydweithwyr y trydydd sector trwy ein Hardaloedd Lleol a'u Timau Arweinyddiaeth. Mae eu gwybodaeth leol, eu profiad a'u cydweithredu yn golygu bod mwy o wasanaethau'n cael eu darparu y tu allan i ysbytai.

Ymhlith meysydd blaenoriaeth Iechyd Cyhoeddus eraill ar gyfer Gogledd Cymru mae mynd i'r afael â gordewdra trwy hyrwyddo gweithgareddau corfforol a maeth iach, alcohol a lles meddyliol. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau partner eraill i roi cynlluniau ar waith ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, sy'n rhan o'n Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus Lleol, â phwyslais ar nodi a chyrchu'r pethau oddi mewn i ni ac o'n hamgylch sy'n ein cadw yn iach.

Mae ysmygu yn parhau i fod yn brif achos ataliadwy salwch a marwolaeth gynnar a'n nod yw lleihau cyfran y bobl sy'n ysmygu o 23% i 16% o'r boblogaeth erbyn 2020. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy amrywiaeth o weithredoedd gan gynnwys hybu mynediad at Wasanaeth Dim Smygu Cymru, yn enwedig ar gyfer merched beichiog, hyfforddi staff gofal iechyd a chymdeithasol y rheng flaen mewn Smoking Brief Intervention, cefnogi pobl i roi'r gorau i ysmygu cyn llawdriniaeth ddewisol, a sicrhau bod therapi disodli nicotin ar gael mewn wardiau ysbyty, cryfhau rôl fferyllwyr cymunedol wrth gefnogi pobl i roi'r gorau i ysmygu, mwy o waith mewn ysgolion a lleoliadau eraill i atal pobl ifanc rhag dechrau ysmygu, gorfodi'r gwaharddiad ysmygu ar holl diroedd y Bwrdd Iechyd, a chefnogi asiantaethau partner i fynd i'r afael â chyflenwi tybaco anghyfreithlon.

Ni fydd rhai grwpiau penodol yn y boblogaeth yn profi'r un deilliannau iechyd â grwpiau eraill, o ganlyniad i nodweddion eraill maent yn eu rhannu. Y nodweddion “gwarchodedig” a nodwyd yn ein Dyletswydd Cydraddoldeb Sengl yw oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn datblygu asesiadau anghenion a sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredoedd iechyd cyhoeddus i helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a chefnogi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer datblygiadau i wasanaethau.

Mae'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus a'i dîm yn parhau i ddarparu tystiolaeth a chyngor arbenigol annibynnol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adolygu parhaus, cynllunio a chomisiynu gwasanaethau diogel, effeithiol a chynaliadwy.




Ei wneud yn Gadarn

Rydym yn sefydliad sector cyhoeddus sy'n cael ei ariannu gan drethdalwyr, felly mae'n hanfodol ein bod yn gweithredu yn unol â lefelau uchel o gywirdeb, gonestrwydd, atebolrwydd, didwylledd a phroffesiynoldeb. Mae strwythur rheoli a sicrhau cryf yn golygu bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac Aelodau Annibynnol yn gallu gwneud yn siŵr ein bod yn dangos safon uchel o lywodraethu.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol y BILl. Manylir ar gyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus meant yn atebol amdanynt, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau y manylwyd arnynt yn fy llythyr penodi yn Swyddog Atebol.



Geoff Lang
Prif Weithredwr Dros Dro 9 Medi 2013

Datganiadau Llywodraethu ac Ansawdd

Mae ein Datganiad Llywodraethu yn dilyn y fformat sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei gwblhau o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r datganiad yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur pwyllgorau a'r system rheoli fewnol. Hefyd mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys gwybodaeth am:

- Y trefniadau i reoli risg
- Prosesau ansawdd a sicrwydd
- Llywodraethu corfforaethol gan gynnwys cynnydd ar roi Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol llawn yn rhan o'r cyfrifon blynyddol llawn sydd ar gael ar gais i Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler tudalen 45 am fanylion cyswllt).

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol cyntaf. Eto mae hwn yn dilyn fformat safonol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n dwyn ynghyd crynodeb o sut mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd yr holl wasanaethau mae'n cynllunio ac yn darparu. Mae'r Datganiad yn cynnwys:

- Adolygiad o ba mor dda rydym yn gwneud
- Gwybodaeth am ymarfer da y gallwn ei rannu a'i ledaenu yn fwy eang
- Meysydd ar gyfer gwelliant pellach
- Gwybodaeth am ein cynnydd, blwyddyn ar flwyddyn

Daw'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd o nifer o ffynonellau data gan gynnwys hunan-asesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn Safonau Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymru a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gael ar ein gwefan.

Rheoli Risg

Gwyddom, oherwydd natur gofal iechyd, y gall pethau fynd o chwith weithiau. Rydym yn rheoli hyn trwy ddeall beth yw'r risgiau, sut y gallwn eu lleihau a thrwy drefniadau monitro ac adolygu cadarn, i sicrhau ein gwneud popeth posibl i osgoi niwed.

Ym mis Hydref 2012 gwnaethom adolygu ein Polisi a Strategaeth Rheoli Risg. Ymhlith elfennau'r fframwaith risg a sicrwydd mae:

- Creu diwylliant sy'n gosod y claf yng nghanol popeth a wnawn
- Annog adrodd am gamgymeriadau'n agored a sicrhau y dysgir gwersi ac y defnyddir mesurau'n brydlon i osgoi ailadrodd camgymeriadau
- Creu dull o weithredu sy'n hollol 'ymwybodol o risg'
- Gwneud yn siŵr bod rheoli risg yn gyfrifoldeb i bawb

Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi adolygu ein Dogfen Fframwaith Rheoli Risg ac wedi gwneud nifer o newidiadau i egluro'r broses asesu risg a dwysau risg. Mae'r prosesau hyn yn cael eu monitro'n rheolaidd gan yr Is Bwyllgor Rheoli Risg.

Ein Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd a gwella iechyd a lles poblogaeth gogledd Cymru. Mae'n atebol i Lywodraeth Cymru trwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a naw Aelod Annibynnol arall, y Prif Weithredwr ac wyth Cyfarwyddwr Gweithredol a dau Gyfarwyddwr sy'n Aelodau Cysylltiol y Bwrdd.

Penodir y Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol o'r gymuned leol oherwydd yr arbenigedd penodol gallant ei gynnig wrth redeg y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwyr yn weithwyr llawn amser sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y Bwrdd Iechyd.

Hefyd ceir Aelodau Cysylltiol sy'n cynrychioli'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

Mae gan y Bwrdd Iechyd saith Pwyllgor sy'n goruchwylio agweddau penodol ar fusnes y Bwrdd:

- Archwilio
- Cyllid a Pherfformiad
- Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Deddf Iechyd Meddwl
- Ansawdd a Diogelwch
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Cronfeydd Elusennol

Cadeirydd



Yr Athro Merfyn Jones

Aelodau Annibynnol



Dr Lyndon Miles
(Is Gadeirydd)



Y Parch Hywel Davies



Ms Jenie Dean



Mrs Marian Wyn Jones



Mr Keith McDonogh



Mr Harri Owen-Jones



Mrs Liz Roberts



Mrs Hilary Stevens



Dr Christopher Tillson

Cyfarwyddwyr



Mrs Mary Burrows
Prif Weithredwr



Mr Mark Scriven
Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol



Mrs Jill Galvani
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion



Mr Geoff Lang
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl



Dr Keith Griffiths
Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd



Mr Andrew Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus



Mrs Helen Simpson
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid



Mr Martin Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol



Mr Neil Bradshaw
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio



Mr Mark Common
Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes



Mrs Grace Lewis-Parry
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu

Ymddeolodd Dr Griffiths ym mis Mai 2012; Mr C Sparkes oedd Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd Dros Dro o 8fed Mehefin 2012.

Gadawodd Mrs Galvani y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth March 2013; Mrs Reena Cartmell oedd Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasnaethau Cleifion o 4ydd Mawrth 2013.

Cafodd rôl Mr Scriven ei chyflawni gan Dr Martin Duerden fel Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Dros Dro o 1af Hydref 2012.

Ymddeolodd Mr Common ym mis Mawrth 2013; Mrs Jill Newman oedd Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes Dros Dro o 22ain Mawrth 2013.

Gan y Pwyllgor Archwilio mae'r rôl allweddol o gynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol a phenderfynu cadarn yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol gan y GIG yng Nghymru.

Aelodau'r Pwyllgor yw Dr Christopher Tillson (Cadeirydd), y Parch Hywel M Davies, Ms Jenie Dean a Mr Keith McDonogh. Mae pob un o'r rhain yn Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Nid yw'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Pwyllgor, ond maent yn mynychu, yn ogystal â swyddogion eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Gwrth Dwyll Lleol.

Hefyd mae'r Aelodau Annibynnol yn 'hyrwyddwyr' ar gyfer meysydd gwaith penodol yn y Bwrdd Iechyd:

Yr Athro Merfyn Jones	Hylendid, Glendid a Rheoli Heintiau
Dr Lyndon Miles	Pobl Hŷn, Iechyd Meddwl, Gofalwyr, Cyn Filwyr
Mr Keith McDonogh	Plant, Iechyd Cyhoeddus
Mr Harri Owen-Jones	Cwynion
Dr Christopher Tillson	Pobl Ifanc, Dylunio
Y Parch Hywel M Davies	Yr Iaith Gymraeg, Diogelu
Mrs Hilary Stevens	Cynnwys y Cyhoedd a Chleifion
Ms Jenie Dean	Trais ac Ymosodedd, Cydraddoldeb

Mae tri Phwyllgor Ymgynghorol (y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Fforwm Partneriaeth Lleol) yn darparu mwy o graffu, sicrwydd, cynnwys ac ymgysylltu i'r Bwrdd.

O dro i dro mae'r Bwrdd yn adolygu perfformiad, gweithredoedd ac effeithiolrwydd ei Bwyllgorau.

Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt a allai effeithio ar eu gallu i fod yn ddiduedd o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Yn y rhestr isod mae'r Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan eu diddordebau ar gyfer 2012/13:

Yr Athro Merfyn Jones	Cadeirydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
	Aelod Bwrdd, Sefydliad Materion Cymreig
	Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Sir Clough Williams Ellis
	Ymddiriedolwr RWYC
Dr Lyndon Miles	Partner, Meddygfa Bron Derw, Bangor
Mr Harri Owen-Jones	Llywydd Age Concern, Gogledd Ddwyrain Cymru
	Aelod Bwrdd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
Mrs Hilary Stevens	Unity Creative Cyf
	LTL International Management
	Ymddiriedolwr Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Sir Ddinbych

	Aelod Bwrdd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
	Aelod Bwrdd Gweithredol CGGC
	Aelod Pwyllgor Canser Ron a Margaret Smith
Dr Christopher Tillson	Partner Meddyg Teulu, Canolfan Iechyd Bodnant, Bangor
Mrs Marian Wyn Jones	Cyfarwyddwr Cysylltiol, Tower Media Training
	Cyfarwyddwr, Canolfan Gerdd William Mathias
	Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
	Ei chwaer yn gweithio fel nyrs i'r Bwrdd Iechyd
Mrs Liz Roberts	Cynghorydd Sir ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Is Gadeirydd y Sir
	Aelod o Glwb Golff Betws y Coed
Mrs Mary Burrows	Ei mab a'i merch yng nghyfraith yn gweithio i Brifysgol Bangor
Mr Geoff Lang	Llywodraethwr Coleg Iâl, Wrecsam
Dr Keith Griffiths	Henry Leach Associates (hyd fis Mehefin 2012)
Mr Andrew Jones	Ei wraig yn gweithio i BIPBC
Mr Clive Sparkes	Nawdd ar gyfer cynadleddau
	Ei wraig yn ynad
	Cyswllt cymdeithasol â Chyfarwyddwr cwmni sydd â chontract â BIPBC ar gyfer darparu cymhorthion clyw
Ms Jenie Dean	Partner yn gweithio rhan amser ym Mhrifysgol Bangor

Mae'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan nad oes ganddyn nhw unrhyw wrthdaro posibl o ran diddordebau: Mr Keith McDonogh; Mr Mark Scriven; Mrs Jill Galvani; Mrs Helen Simpson; Mr Martin Jones; Mr Neil Bradshaw; Mr Mark Common; Mrs Grace Lewis-Parry; Dr Martin Duerden; Mrs Reena Cartmell.

Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu set o ddatganiadau ariannol blynyddol yn defnyddio fformat sy'n gyffredin i bob corff GIG yng Nghymru. Mae'r datganiadau blynyddol yn destun i archwiliad a darperir barn archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol dros Gymru.

Paratowyd Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd yn unol â'r fformat a'r amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfrifon yn destun i archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru a rhoddwyd barn archwilio ddiamod arnynt ar 11eg Mehefin 2013.

Yn ystod misoedd Ebrill a Mai 2012, darparodd y Bwrdd Iechyd lety i nifer o wasanaethau a oedd yn cael eu rheoli ar sail Cymru Gyfan dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cafodd y trafodion hyn eu cydgrynhoi mewn datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd a archwilwyd, ond nid oeddynt yn cyflwyno unrhyw risg ariannol ychwanegol i'r Bwrdd Iechyd a chawsant eu trosglwyddo yn llawn i Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn ystod y flwyddyn ariannol.

Ymgymerodd y Bwrdd Iechyd ag ymarfer ailbrisio yn erbyn ei ystad yn ystod y flwyddyn ariannol, ac o ganlyniad i hyn ar ddyddiad y fantolen, mae'r llyfrwerth yn adlewyrchu'r prisiad a bennwyd gan y Prisiwr Dosbarth.

Mae'r datganiadau ariannol cryno sydd wedi'u cynnwys yr adroddiad hwn yn ddatganiadau gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys effaith y gwasanaethau a roddir llety iddynt ar ran GIG Cymru. Mae tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau bod y datganiadau ariannol cryno hyn yn gyson â'r cyfrifon llawn y rhoddwyd y farn archwilio arnynt.

Mae'r datganiadau ariannol cryno a ddangosir yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr (yn cynnwys Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol a Therfyn Adnoddau Cyfalaf)
- Datganiad o Sefyllfa Ariannol
- Datganiad o Newid yn Ecwiti Trethdalwyr
- Datganiad Llif Arian

Ni fydd y datganiadau ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllfa a pherfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae set lawn o ddatganiadau ariannol cyfunol ar gael drwy wneud cais i Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, yr Adran Gyllid, Ysbyty Maelor Wrecsam, Bocs PO 860, Wrecsam, LL13 7JL.

Datganiad Net Cynhwysfawr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013

	2012/13 £'000	2011/12 £'000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	**283,816**	287,423
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	**284,255**	273,553
Gwariant ar ysbytai a Gwasanaethau Iechyd Cymuned	**808,720**	778,610
	1,376,791	1,339,586
Llai: Incwm Amrywiol	**117,463**	118,547
Costau gweithredol net y Bwrdd Iechyd cyn llog ac enillion a cholledion	**1,259,328**	1,221,039
Enillion eraill	**(77)**	(12)
Costau cyllid	**173**	189
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	**1,259,424**	1,221,216

Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol

Perfformiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013 yw:

	2012/13 £'000
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	1,259,424
Llai gwariant annewisol	1,940
Costau gweithredol net llai gwariant annewisol a Chanlyniadau refeniw PFI	1,257,484
Terfyn Adnoddau Refeniw	1,257,489
Tanwariant yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw	**5**

Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf:

	2012/13 £'000	2011/12 £'000
Gwariant cyfalaf gros	**34,508**	31,900
Llai llyfrwerth net o waredu eiddo, peiriannau mawr a chyfarpar ac asedau anniriaethol	**(1,871)**	(522)
Llai grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	**(0)**	(303)
Llai rhoddion a dderbyniwyd	**(1,295)**	(888)
Cost yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**31,342**	30,187
Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**31,362**	30,204
Tanwario yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	**20**	17

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel ar 31ain Mawrth 2013

	31 Mawrth 2013 £'000	31 Mawrth 2012 £'000
Asedau anghyfredol		
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	**450,861**	512,821
Asedau anniriaethol	**1,360**	1,708
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	**44,272**	25,853
Cyfanswm asedau anghyfredol	**496,493**	540,382
Asedau cyfredol		
Rhestrau eiddo	**12,509**	11,665
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	**38,836**	49,773
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**417**	735
	51,762	62,173
Asedau anghyfredol a ddosbarthir fel 'Yn cael eu dal i'w gwerthu'	**1,207**	501
Cyfanswm asedau cyfredol	**52,969**	62,674
Cyfanswm asedau	**549,462**	603,056
Rhwymedigaethau cyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**110,670**	109,812
Darpariaethau	**23,119**	31,819
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol	**133,789**	141,631
Rhwymedigaethau cyfredol net	**(80,820)**	(78,957)
Rhwymedigaethau anghyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**1,326**	1,386
Darpariaethau	**47,446**	28,728
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol	**48,772**	30,114

Cyfanswm asedau a ddefnyddir	**366,901**	431,311
Ariannwyd gan:		
Ecwiti trethdalwyr		
Cronfa Gyffredinol	**332,242**	371,804
Cronfa wrth gefn ailbrisio	**34,659**	59,507
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr	**366,901**	431,311

Datganiad newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2013

	Cronfa Cyffredinol £000s	Cronfa Ailbrisio Cadw £000s	Cyfanswm Cronfeydd Cadw £000s
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2012/13			
Ailddatgan Balans ar 1af Ebrill 2012	371,804	59,507	**431,311**
Costau gweithredol net am y flwyddyn	(1,259,424)		**(1,259,424)**
Ennill/(colled) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar	0	97,333	**97,333**
Ennill net ar ailbrisio asedau a ddaliwyd i'w gwerthu	123	0	123
Lleihad yng ngwerth a gwrthdroadau	0	(122,160)	**(122,160)**
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	144	(144)	**0**
Cyfanswm cydnabyddedig incwm a gwariant ar gyfer 2012/13	(1,259,280)	24,848	**(1,284,128)**
Arian net Llywodraeth Cymru	1,219,718		**1,219,718**
Balans ar 31ain Mawrth 2012	332,242	34,659	**366,901**

Datganiad Llif Arian am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2013

	2012/13 £'000	2011/12 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu		
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	**(1,259,424)**	(1,221,216)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	**(7,953)**	86
Addasiadau llif arian eraill	**90,737**	66,006
Darpariaethau a ddefnyddiwyd	**(12,556)**	(17,139)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	**(1,189,196)**	(1,172,263)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**(33,900)**	(42,672)
Elw o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**1, 948**	534
Prynu asedau anniriaethol	**(183)**	(160)
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi	**(32,135)**	(42,298)
All-lif arian cyn ariannu	**(1,221,331)**	(1,214,561)
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Arian Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfalaf)	**1,219,718**	1,211,932
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	**1,295**	1,191
Ariannu net	**1,221,013**	1,213,123

Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**(318)**	(1,438)
Arian parod a'r hyd sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 1af Ebrill 2012	**2,173**	3,816
Arian parod a'r hyd sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 31ain Mawrth 2013	**735**	2,173

Côd Ymarfer Gwella Arfer Taliadau

Mae Côd Ymarfer Gwella Arfer Taliadau Cydffederasiwn Diwylliant Prydain yn gofyn bob pob credydwr masnach yn cael ei dalu o fewn 30 diwrnod i dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys, p'run bynnag sydd ddiweddarach. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o gydymffurfiad o 95% ar gyfer nifer yr anfonebau a delir i gredydwyr heb fod yn y GIG. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rhagori ar y targed hwn ac mae manylion y perfformiad yn dilyn:

	2012/13 Nifer	2012/13 £'000	2011/12 Nifer	2011/12 £'000
GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	5,905	214,316	6,499	214,856
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	5,245	210,379	5,911	211,938
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	88.8%	98.2%	91.0%	98.6%
Heb fod yn y GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	232,721	289,344	235,988	293,443
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	222,806	278,117	228,038	285,033
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	95.7%	96.1%	96.6%	97.1%
Cyfanswm				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	238,626	503,660	242,487	508,299
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	228,051	488,496	233,949	496,971
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	95.6%	97.0%	96.5%	97.8%

Costau Rheoli

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i gadw costau rheoli mor isel ag sy'n rhesymol bosib, er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu cyfeirio at wasanaethau rheng flaen. O ganlyniad mae swyddi rheoli a chostau rheoli'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Fel rhan o osod cyllideb ym mis Mawrth 2010, cytunodd y Bwrdd Iechyd y byddai strwythurau rheoli yn cael eu hadolygu i wneud y gorau o'r enillion yn dilyn integreiddio'r Bwrdd Iechyd. Roedd y strategaeth hon yn cynnwys sefydlu strwythurau gyda lleihad cyffredinol o 20% mewn costau rheoli. Yn dilyn ymdrechion sylweddol ar draws GRhG ac Adrannau Corfforaethol, daethpwyd i gytundeb ar y newidiadau i strwythurau staff er mwyn sicrhau'r lleihad angenrheidiol mewn costau. Cafodd y dull hwn o weithredu ei barhau yn 2012/13.

Cyflawnwyd y gwaith hwn dan y Polisi Newid Sefydliadol ac mewn ymgynghoriad â staff a'u cynrychiolwyr ochr staff i sicrhau bod ymgysylltu da gyda staff ynghylch cytuno ar strwythur rheoli sy'n ateb y diben ac yn ychwanegu gwerth at y Bwrdd Iechyd.

Mae Costau Rheoli'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn erbyn gwaelodlin gytunedig 2007/08, sy'n cael ei addasu ar gyfer chwyddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd ar y trywydd iawn i leihau costau rheoli yn unol â'r targed a osodwyd erbyn 31 Mawrth 2014.

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr.

Cynllun cenedlaethol heb ei ariannu, buddion diffiniedig ydyw sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd teulu a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosib i'r Bwrdd Iechyd ddynodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Felly, mae Datganiad Cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr o 14% o dâl pensiwn.

Cyfanswm cost pensiwn yn berthnasol i 2012/13 oedd £57,743,000.

Mae manylion pellach am y cynllun pensiwn ar gael yn y cyfrifon blynyddol llawn sydd ar gael ar gais i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (gweler manylion cyswllt ar dudalen 45).

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau uchel iawn eraill y Bwrdd Iechyd, ynghyd ag agweddau eraill o'u telerau ac amodau gwasanaeth, yn cael ei bennu gan Bwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, yr Athro Merfyn Jones ac mae'n cynnwys yr Aelodau Annibynnol Dr Lyndon Miles, Ms Jenie Dean, Mr Keith McDonogh, Mr Harri Owen-Jones a Dr Christopher Tillson. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a rhai'r dyfodol yn dilyn cyfarwyddebau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd cyflogau eu pennu gan Lywodraeth Cymru trwy'r system Gwerthuso Swyddi JESP fel rhan o raglen Diwygio GIG yn 2009.

Mae pob swydd yn destun i reoli perfformiad, ond nid oes yr un elfen benodol o'r cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad, naill ai ar ffurf ychwanegiad at y cyflog craidd ynteu gadw peth o'r cyflog craidd. Mae'r system Rheoli Perfformiad Unigol yn dilyn yr hyn mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyhoeddi ac wedi'i orchymyn fel rhan o raglen Diwygio GIG 2009. Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau diswyddo yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae pob contract yn barhaol, â chyfnod o 3 mis o rybudd ymadael. Sefydlwyd yr amodau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Diwygio'r GIG 2009.

Mae manylion cyflogau, lwfansau a buddion pensiwn Aelodau'r Bwrdd a Rheolwyr Uchel Iawn drosodd.

Enw a theitl	2012/13				2011/12			
	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000	Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)
Yr Athro R M Jones Cadeirydd	**65-70**	**0**	**0**	**0**	65-70	0	0	0
Dr L Miles Is-Gadeirydd	**55-60**	**0**	**0**	**0**	55-60	0	0	0
Y Parch H Davies Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Ms J Dean (*1) Aelod Annibynnol	**0**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mrs M W Jones Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	5-10	0	0	0
Mr K McDonogh Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Mr H Owen-Jones Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Mrs E M B Roberts Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	5-10	0	0	0
Mrs H Stevens Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0
Dr C Tillson Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**0**	15-20	0	0	0

Enw a theitl	2012/13				2011/12			
	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	**Tâl arall (bandiau o £5,000) £000**	**Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000**	**Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)**	**Cyflog (bandiau o £5,000) £000**	**Tâl arall (bandiau o £5,000) £000**	**Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000**	**Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)**
Mrs M Burrows Prif Weithredwr	**200-205**	**0**	**0**	**40**	200-205	0	0	37
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	**160-165**	**0**	**0**	**(2)**	135-140	30-35	0	53
Dr M Duerden (from 1 Oct 2012) Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Dros Dro	**65-70**	**65-70**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mrs J Galvani (at 3 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion	**115-120**	**0**	**0**	**0**	125-130	0	0	21
Mrs R Cartmell (o 4 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion Dros Dro	**5-10**	**75-80**	**0**	**5**	0	0	0	0
Mr G Lang (*2) Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal Cychwynnol, Cymuned ac Iechyd Meddwl	**130-135**	**0**	**0**	**0**	125-130	0	0	0
Dr K Griffiths (at 7 Mehefin 2012) Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd	**15-20**	**0**	**0**	**0**	100-105	0	0	0
Mr C Sparkes (o 8 Mehefin 2012) Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd Dros Dro	**55-60**	**80-85**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mr A Jones (*3) Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	**120-125**	**0**	**0**	**0**	95-100	0	0	0
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	**135-140**	**0**	**0**	**60**	135-140	0	0	58
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol	**125-130**	**0**	**0**	**10**	125-130	0	0	14

Enw a theitl	2012/13				2011/12			
	Cyflog (bandiau o £5,000) £000	**Tâl arall (bandiau o £5,000) £000**	**Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000**	**Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)**	**Cyflog (bandiau o £5,000) £000**	**Tâl arall (bandiau o £5,000) £000**	**Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £000**	**Buddion mewn nwyddau (Wedi'i dalgrynnu i'r £100 agosaf)**
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio	**125-130**	**0**	**0**	**7**	125-130	0	0	20
Mr M Common Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes	**110-115**	**0**	**0**	**0**	110-115	0	0	43
Mrs J Newman (o 22 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes Dros Dro	**0-5**	**75-80**	**0**	**0**	0	0	0	0
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	**95-100**	**0**	**0**	**30**	95-100	0	0	48

(*1) Mae Ms Dean yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd a hi yw Cynrychiolydd Undeb Llafur y Bwrdd.
(*2) Rhwng 1af Ebrill 2012 ac 8fed Mai 2012 roedd Mr Lang yn Brif Weithredwr Dros Dro.
(*3)Nid yw'r cyfanswm cyflog a nodwyd ar gyfer Mr Jones ar gyfer 2012/13 yn cynnwys costau o £116,000 a gafodd eu hariannu gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cymhareb Tâl Teg Hutton

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn ei sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol canolrifol ein gweithlu.

Band cydnabyddiaeth ariannol uchaf y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf yn y BILl yn y flwyddyn ariannol 2012/13 oedd £200,000 - £205,000 (2011/12, £200,000 - £205,000). Roedd hyn 7.63 gwaith (2011/12, 7.81) cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £26,557 (2011/12, £26,401). Y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf oedd yr un unigolyn yn 2011/12 ac yn 2012/13 ac ni dderbyniodd godiad cyflog yn 2012/13.

Yn 2012/13, cafodd pump (2011-12, dim) gweithiwr gydnabyddiaeth ariannol fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf, ac roedd cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau hyn o staff yn amrywio o £205,000 hyd £235,000 (2011/12 H/B). Roedd pob un o'r gweithwyr hyn yn uwch glinigwyr a gafodd daliadau ychwanegol yn deillio o daliadau menter rhestr aros, a hefyd cawsant eu talu am gyfrifoldebau ychwanegol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diffinio cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn unol â'r arweiniad sydd ar gael i gynnwys cyflog, tâl ar wahân sy'n gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth cyfatebol trosglwyddo i arian pensiynau

Mae'r gymhareb wedi lleihau yn ystod 2012/13 oherwydd bod y gydnabyddiaeth ariannol canolrifol wedi cynyddu ond nid yw cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf wedi newid. Y prif reswm am y cynnydd mewn tâl canolrifol yw, oherwydd rhoddwyd codiadau cyflog yn ystod y flwyddyn i'r aelodau hynny o staff a oedd yn ennill cyflog blynyddol cyfwerth â llawn amser £20,804 neu lai; cafodd oddeutu 38% o'r gweithlu (yn ôl nifer) godiad cyflog. Roedd hwn yn godiad cyflog a oedd yn adlewyrchu cyhoeddiadau Trysorlys EM yn 2011 y byddai'r rheiny'n ennill llai na £21,000 yn cael eu gwarchod rhag rhewiad cyflog cyffredinol y sector cyhoeddus.

Mae cyfanswm nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn wedi parhau yn weddol gyson. Mae cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth â Llawn Amser wedi lleihau yn ystod y flwyddyn gan lai nag 1%; hefyd mae cyfran y staff mewn bandiau cyflog 1-4 Agenda dros Newid (ac felly'n gymwys ar gyfer codiad cyflog yn 2012/13) hefyd wedi lleihau fymryn yn 2012/13.

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) £000	Gwir gynnydd mewn lwmp swm oed 60 (bandiau o £2,500) £000	Cyfanswm y pensiwn cronedig oed 60 ar 31 Mawrth 2013 (bandiau o £5,000) £000	Lwmp swm oed 60 yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2013 (bandiau o £5,000) £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2013 £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2012 £000	Cynnydd go iawn mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £000	Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn cyfranddeiliaid £000
Mrs M Burrows Prif Weithredwr	**2.5-5.0**	**7.5-10.0**	**45-50**	**140-145**	**1,018**	**929**	**89**	**0**
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol	**(2.5-5.0)**	**(7.5-10.0)**	**60-65**	**190-195**	**1,270**	**1,286**	**(16)**	**0**
Mrs J Galvani (at 3 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion	**0-2.5**	**5.0-7.5**	**50-55**	**150-155**	**959**	**970**	**(11)**	**0**
Mrs R Cartmell (o 4 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion Dros Dro	**0-2.5**	**0-2.5**	**20-25**	**70-75**	**412**	**401**	**11**	**0**
Mr G Lang (*1) Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	**0-2.5**	**5.0-7.5**	**45-50**	**135-140**	**757**	**704**	**53**	**0**
Dr K Griffiths (at 7 Mehefin 2012) Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd	**(0-2.5)**	**(10-12.5)**	**50-55**	**150-155**	**0**	**0**	**0**	**0**
Mr C Sparkes (o 8 Mehefin 2012) Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddor Iechyd Dros Dro	**0-2.5**	**5.0-7.5**	**55-60**	**165-170**	**1,230**	**1,151**	**79**	**0**
Mr A Jones (*2) Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	**(0-2.5)**	**(0-2.5)**	**35-40**	**115-120**	**659**	**648**	**11**	**0**
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	**(0-2.5)**	**(0-2.5)**	**45-50**	**135-140**	**812**	**800**	**12**	**0**
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	**(0-2.5)**	**(0-2.5)**	**45-50**	**140-145**	**897**	**888**	**9**	**0**
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio	**0-2.5**	**0-2.5**	**30-35**	**90-95**	**630**	**610**	**20**	**0**

Enw a theitl	Gwir gynnydd mewn pensiwn yn 60 oed (bandiau o £2,500) £000	Gwir gynnydd mewn lwmp swm oed 60 (bandiau o £2,500) £000	Cyfanswm y pensiwn cronedig oed 60 ar 31 Mawrth 2013 (bandiau o £5,000) £000	Lwmp swm oed 60 yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2013 (bandiau o £5,000) £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2013 £000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31 Mawrth 2012 £000	Cynnydd go iawn mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £000	Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn cyfranddeiliaid £000
Mr M Common Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes	**(0-2.5)**	**(2.5-5.0)**	**55-60**	**165-170**	**1,243**	**1,238**	**5**	**0**
Mrs J Newman (o 22 Mawrth 2013) Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes Dros Dro	**(0-2.5)**	**(0-2.5)**	**25-30**	**85-90**	**527**	**519**	**8**	**0**
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	**(0-2.5)**	**(0-2.5)**	**25-30**	**85-90**	**526**	**516**	**10**	**0**

(*1) Rhwng 1af Ebrill 2012 ac 8fed Mai 2012 roedd Mr Lang yn Brif Weithredwr Dros Dro.
(*2) Ariannwyd cyflog Mr A Jones ar y cyd gan y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13.

Mae'r ffigyrau a ddarparwyd gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG a'u datgelu uchod yn ymwneud â Chyfanswm Tâl Pensiynadwy am yr holl gyfnod waeth pa gorff iechyd sy'n talu.

Roedd Dr M Duerden yn Gyfarwyddwr Meddygol Dros Dro rhwng mis Hydref 2012 a mis Mawrth 2013 ac roedd hefyd yn Feddyg Teulu yn ystod y cyfnod ariannol. Nid yw Asiantaeth Pensiynau'r GIG yn gallu darparu manylion buddion pensiynau

Adroddiad yr Archwilwyr

Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gwneir y gwaith archwilio allanol ar ei ran gan staff Swyddfa Archwilio Cymru (WAO).

Roedd y gwaith a gyflanwyd gan WAO yn cynnwys archwilio'r Datganiadau Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2012 – 31 Mawrth 2013 yn ogystal â darparu barn ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau gwerth am arian.

Ffi'r archwiliad ar gyfer 2012/13 oedd £525,000 a oedd yn cynnwys elfen yn ymwneud ag archwilio gweithgareddau Cronfa Risg Cymru y Bwrdd Iechyd ar gyfer misoedd Ebrill a Mai 2013.

Datganiad y Cyfarwyddwyr ar ddatgeliadau archwilio

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr eu bod wedi cymryd pob cam y dylid ei gymryd, fel Cyfarwyddwyr, i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sicrhau bod Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled â'u bod yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno sydd yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar dudalennau 44 i 48.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr, y Swyddog Atebol a'r archwilydd

Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw rhoi fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol, adroddiad aelodau'r Bwrdd, sylwadau rheoli, a'r adroddiad cydnabyddiaeth ariannol. Rwyf hefyd wedi darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol â'r crynodeb o ddatganiadau ariannol.

Sail y farn

Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno'n gyson â datganiadau ariannol statudol, adroddiad aelodau'r Bwrdd, sylwadau rheoli ac adroddiad tâl Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31Mawrth 2013 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad yr arwyddais f'adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, 11 Mehefin 2013 a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
20 Medi 2013

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd